



Ymgysylltu â'r Gymuned mewn Cynlluniau Datblygu Lleol

CYDWEITHREDIAD RHWNG

PRIFYSGOL CAERDYDD

PRIVILEGE CAFE

CYNGOR CAERDYDD

ACTION IN CAERAU AND ELY (ACE)

PAFILIWN GRANGE A FFORWM IEUENCTID PAFILIWN GRANGE

SPLOTT COMMUNITY VOLUNTEERS

COMMON WEALTH

CYMORTH CYNLLUNIO CYMRU

YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED MEWN CYNLLUNIAU DATBLYGU LLEOL

Cydweithrediad rhwng:

Prifysgol Caerdydd

Athro Mhairi McVicar (Prif ymchwilydd), Ysgol Pensaerniaeth Cymru a'r Porth Cymunedol
Dr Neil Turnbull (Cyd-ymchwilydd), Ysgol Pensaerniaeth Cymru
Dr Neil Harris (Cyd-ymchwilydd), Yr Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio
Inanna Heslop (Lleoliad ar y campws), Ysgol Pensaerniaeth Cymru

Privilege Café

Mymuna Soleman

Cyngor Caerdydd

Simon Gilbert, Pennaeth Cynllunio
Stuart Williams, Rheolwr (Polisi), Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd
Helen Williams, Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd
Richard Butler, Planning, Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd

Action in Caerau and Ely (ACE)

Dave Horton
Becky Matyus

Pafiliwn Grange a Fforwm Ieuenctid Pafiliwn Grange

Abdi Yusuf
Nirushan Sudarsan
Shoruk Nekeb
Credydau ffilm animeiddiedig: Efa Blossie-Mason, Paolo Russo

Splott Community Volunteers

Lynne Thomas
Richard Powell

Common Wealth

Rhiannon White
Chantal Williams
Camilla Brueton
Actorion: Thaer Al-Shayei, Chiffa Khelfaoui, Kate Wilson.
Ysgrifennwr: Patrick Jones,
Dylunydd Set: Eve Wilson.
Ffotograffydd: Jon Poutney

Cymorth Cynllunio Cymru

Mark Jones

Ariennir y prosiect hwn gan Grant Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) Cyfrif Cyflymydd
Efaith Cytûn (HIAA). Dosbarthwyd 4 Rhagfyr 2024, Prifysgol Caerdydd.
Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â: mcvicarm@cardiff.ac.uk.

CYNNWYS

Cyflwyniad	5
Y system gynllunio yng Nghymru	9
Cynlluniau Datblygu Lleol	11
Cynlluniau Bro	13
Tîm ymchwil	14
Argymhellion ymchwil blaenorol	15
Sefydliadau partner	16
Llinell amser y prosiect	19
Tîm y prosiect: ein nodau cyffredin	20
Tîm Prosiect: ein ffyrdd o weithio	22
Lansio Rhwydwaith Cyngori	24
Arbenigedd a blaenoriaethau'r Rhwydwaith Cynghor	26
Adnoddau a chymorth y Rhwydwaith Cyngori	27
Camau ymgysylltus	28
Splott Community Volunteers	30
Action in Caerau and Ely (ACE)	42
Common Wealth	48
Pafiliwn Grange a Fforwm Ieuenctid Pafiliwn Grange	60
Myfyrdodau diwrnod ysgrifennu	72
Sgyrsiau myfyriol	74
Argymhellion ar gyfer y camau nesaf	81
Adnoddau a chysylltiadau	82



Cyflwyniad

Mae Hwyluso Ymgysylltu â'r Gymuned mewn Cynlluniau Datblygu Lleol yn ymchwil ar y cyd rhwng Prifysgol Caer-dydd, Caffi Braint, Cyngor Caerdydd, Gweithredu yng Nghaerua a Threlái (ACE), Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO) Pafiliwn Grange a Fforwm Ieuenctid Pafiliwn Grange, Gwirfod-dolwyr Cymunedol Sblot, Common Wealth a Cymorth Cynllunio Cymru. Nod y prosiect blwyddyn (Tachwedd 2023-2024) yw cynyddu ymwybyddi-aeth trigolion Caerdydd o Gynllun Dat-blygu Lleol Newydd (CDLI) Cyngor Caerdydd, a'u cyfranogiad ynddo.

Mae'r CDLI yn diffinio blaenoriaethau ar gyfer defnyddio tir yng Nghaerdydd, gan effeithio ar ble y bydd tai, cyflo-gaeth, trafndiaeth a hamdden yn cael eu lleoli. Roedd cyhoeddiad mis Me-hefin 2023 Cyngor Caerdydd o'r 'Strategaeth a Ffefrir' ar gyfer y CDLI yn ymrwmo i leihau anghydraddoldebau ledled Caerdydd, gan ganolbwyntio ar 'fwa deheuol' Caerdydd - ochr ddeheuol Caerdydd o Drelái a Chaerau yn y Gorllewin i Laneirwg yn y Dwyrain.

Cytunodd ein tîm ymchwil o academyddion, penseiri, cynllunwyr trefol, cynrychiolwyr y cyngor, a gweithredwyr a sefydliadau cymunedol sydd wedi'u lleoli yn y Bwa Deheuol, mai ychydig iawn o drigolion sy'n gwybod sut i gyfrannu at ymgynghoriadau'r Cynllun Datblygu Lleol neu sy'n ymwybodol o sut y gallai eu mewnbwn effeithio ar ddyfodol eu hardaloedd lleol eu hunain. Drwy'r prosiect hwn, roeddem yn ane-lu at rannu gwybodaeth am y broses CDLI, gwybodaeth am ein hardaloedd lleol a gwybodaeth am sut i ymgy-sylltu.


Gwnaethom estyn allan at uni-golion a sefydliadau eraill ledled Caerdydd a Chymru i holi sut y byddai ffurfio Rhwydwaith Cynghori y Cynllun Datblygu Lleol yn cefnogi hyn. Gwnae-thom ariannu pedwar sefydliad cymunedol sydd wedi'u lleoli ym Mwa Deheuol Caerdydd i arwain 'camau ymgysylltu' i lywio cyfranogiad y gymuned yn y CDLI.


Nid oedd y 'camau ymgysylltu' hyn yn rhan ffurfiol o ymgynghoriadau CDLI Cyngor Caer-dydd, ond roeddent yn rhedeg fel gofod arbrolfol a oedd yn mynd rhagddynt ochr yn ochr â rhai'r Cyngor, gan ymddiried ym mhob sefydliad cymunedol i gynnig eu dulliau eu hunain o ddod â phobl ynghyd i siarad am flaenoriaethau, gweledigaethau a gwerthoedd ar gyfer dyfodol eu harda-loedd lleol.

Mae'r llyfryn hwn yn grynodedb o'r cydweithio hwn a'r camau ymgysylltu a ddigwyddodd ym mis Medi 2024.

‘Mae anghydraddoldebau helaeth yn bodoli yn y ddinas gydag amddifadedd o ran tai, yr amgylchedd ffisegol, cyflogaeth, incwm, cyflawniadau addysgol ac iechyd, a’r rheini wedi’u canoli’n bennaf yng ‘nghilgaint y de’ – ardal sy’n ymestyn o Drelái yn y Gorllewin i Laneirwg yn y Dwyrain gyda phoblogaeth o tua 155,000. Bydd angen i’r cynlluniau datblygu lleol newydd gynnig fframwaith polisi sy’n lleihau anghydraddoldebau ledled y ddinas dros y cyfnod cynllunio i 2036.’

Ymgynghoriad Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Newydd:
Strategaeth a Ffefrir, Cyngor Caerdydd, Mehefin 2023, tudalen. 13.





Delwedd: Inanna Heslop



Y system gynllunio yng Nghymru

Mae'r system gynllunio yng Nghymru yn darparu cyfleoedd i'r cyhoedd lunio dyfodol eu trefi, eu dinasoedd a'u cymunedau. Mae'r system gynllunio yn rheoli defnydd tir a datblygu tir ac adeiladau er budd y cyhoedd.

Mae'r system gynllunio hefyd yn fframwaith pwysig ar gyfer sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r system gynllunio weithredu o fewn egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Mae cynllunio'n cysylltu ag ystod eang iawn o themâu a phynciau sy'n dylanwadu ar y lleoedd lle'r ydym yn byw – yn cynnwys trafnidiaeth a symud, tai, mannau gwyrdd, cyflogaeth, diogelu'r amgylchedd a hamdden. Felly, mae'r system gynllunio yn ffordd bwysig o reoli'r lluo o ofynion a phwysau ar sut rydym yn defnyddio tir ac adeiladau.

Mae dau brif weithgaredd yn y system gynllunio lle gall y cyhoedd gymryd rhan - gwneud cynlluniau ar wahanol raddfeydd, a phan wneir penderfyniadau ar gynigion ar gyfer datblygiad newydd.

Gwneir cynlluniau ar raddfeydd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae cyfleoedd ffurfiol ar gyfer ymgynghori neu ymgysylltu â llunio cynlluniau ar bob graddfa. Fel arfer, mae'r cymunedau cyhoeddus a lleol yn cymryd mwy o ran mewn llunio cynlluniau ar lefel leol a phryd y gallant weld sut y gall datblygiad effeithio ar y lleoedd lle maent yn byw.

Gall cynlluniau fod yn ffordd werthfawr o osod gweledigaeth ar gyfer ardal yn y dyfodol a dylunio polisiâu cynllunio i helpu i lunio datblygiad yn y dyfodol. Mae cynlluniau hefyd yn bwysig wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio pan fydd unigolyn neu ddatblygwr eisiau datblygu tir.

Felly, gall cymunedau, sefydliadau ac unigolion sydd am lunio eu hardal leol gymryd rhan yn y cam cynllunio a phan gyflwynir ceisiadau cynllunio.



LOST MARY
Life's Merry!

Sustainable Sourcing
Our short supply chain reduces our environmental footprint & ensures our ingredients arrive faster and fresher to your door.

HELLO FRESH

Dinner is solved

HELLO FRESH
Dinner is solved

TANGY CHEESE
70g e

Cynlluniau Datblygu Lleol

Mae cynllunio ar lefel leol yng Nghymru yn cael ei wneud gan 'awdurdodau cynllunio lleol'. Mae 25 awdurdod cynllunio lleol ledled Cymru - mae tri o'r rhain yn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac mae'r gweddill yn awdurdodau lleol neu'n gynghorau. Awdurdod cynllunio lleol Caerdydd, er enghraifft, yw Cyngor Caerdydd.

Mae gan bob awdurdod cynllunio lleol ddyletswydd i baratoi Cynllun Datblygu Lleol. Mae Cynllun Datblygu Lleol yn adnodd ar gyfer gosod gweledigaeth ar gyfer yr ardal leol, sut y bydd yr ardal yn newid, ac anghenion datblygu'r ardal i'r dyfodol. Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru Gynllun Datblygu Lleol ac maent yn ymwneud â diweddarau neu ddisodli cynllun. Mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn edrych ymlaen dros gyfnod o 10-15 mlynedd.

Mae angen i Gynlluniau Datblygu Lleol fod yn seiliedig ar dystiolaeth a rhoi cyfle i ymgysylltu â'r gymuned ac ymgynghori. Mae angen i Gynlluniau Datblygu Lleol ystyried ystod eang o bolisiau, gan gynnwys polisiau cynllunio Llywodraeth Cymru.

Mae paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys sawl cam ac yn aml yn cymryd sawl blwyddyn o'r dechrau i'r diwedd. Mae cyfleoedd i gymryd rhan, ymgysylltu ac ymgynghori ar bob cam. Mae gan bob awdurdod cynllunio lleol Gytundeb Cyflawni sy'n nodi'r amserlen ar gyfer gwneud y cynllun a sut a phryd y bydd y cyhoedd yn cymryd rhan.

Bydd cynnwys Cynllun Datblygu Lleol yn amrywio rhwng pob awdurdod cynllunio lleol. Bydd Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys strategaeth ar gyfer datblygu'r ardal yn y dyfodol, cyfres o bolisiau cynllunio strategol a manwl, yn ogystal â dyraniadau safle ar gyfer datblygiad newydd wedi'u dangos ar fap.

Pan gaiff ei 'fabwysiadu', Cynllun Datblygu Lleol fydd un o'r ffactorau pwysicaf wrth lunio penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

Cynllun Cynefin

Mae Cynllun Cynefin yn gynlluniau lleol a llai ffurfiol y gall y gymuned leol eu cychwyn. Mae Cynllun Cynefin yn cael eu paratoi'n wirfoddol pan fyddant yn cefnogi cyflwyno polisiau yn y Cynllun Datblygu Lleol. Maent hefyd yn helpu cymunedau i fynegi materion cynllunio lleol, ac i hyrwyddo'r gwaith o ddarparu gweithgareddau creu lleoedd.

Gellir paratoi Cynllun Cynefin fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol, ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol, neu ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol.

Mae Cynllun Cynefin yn ffordd i'r gymuned fynegi'r materion cynllunio lleol sy'n bwysig i'r gymuned, yn ogystal â chyfrannu gwybodaeth leol at ymhelaethu a chyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol. Gall Cynlluniau Cynefin hefyd helpu i lywio ble a sut y caiff yr arian sydd ei angen i wneud datblygiad newydd ei wario.

Nid yw'r gyfraith yn mynnu Cynllun Cynefin yng Nghymru ('anstatudol') ond gall awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu Cynllun Cynefin fel canllawiau cynllunio atodol. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o statws ar gyfer Cynllun Lle, gan gynnwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Rhaid i'r Cynllun Cynefin fod yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol. Felly, mae'n bwysig bod grwpiau cymunedol yn cymryd rhan drwy gydol y broses. Mae paratoi Cynllun Cynefin hefyd yn gofyn am adnoddau gan gynnwys arian, amser a chefnogaeth.

Mae enghreifftiau yng Nghymru lle mae cymunedau lleol wedi paratoi Cynllun Cynefin. Mae llawer ohonynt mewn trefi llai a chymunedau gwledig ac wedi cael eu harwain gan gynghorau tref a chymuned. Gellir paratoi Cynlluniau Cynefin yn unrhyw le, gan gynnwys mewn ardaloedd trefol a chymunedau mewn dinasoedd. Gall cymuned leol mewn ardal heb gyngor cymuned neu dref baratoi Cynllun Cynefin ar y cyd â'r awdurdod cynllunio lleol.

Tîm ymchwil

Prifysgol Caerdydd

Yr **Athro Mhairi McVicar** yw arweinydd academiaidd y Porth Cymunedol, sef plattform partneriaeth Prifysgol Caerdydd. Mae wedi datblygu prosiectau partneriaeth ymchwil ac addysgu tymor hir gydag unigolion a sefydliadau yn Grangetown dros y deng mlynedd diwethaf, gan gynnwys ailddatblygu Pafiliwn Grange. Mae methodolegau ymchwil cyfranogol Mhairi yn ymateb i gyfleoedd a heriau byw mewn prosesau datblygu cymunedol, ac yn eu cefnogi.

<https://profiles.cardiff.ac.uk/staff/mcvicarm>

Mae ymchwil **Dr Neil Harris** yn canolbwyntio ar weithrediad y system gynllunio statudol, gan gynnwys llunio cynllunio ar wahanol raddfeydd. Mae ei waith wedi canolbwyntio'n rheolaidd ar gynllunio statudol yng Nghymru a Chaerdydd. Mae Neil wedi cyngori Senedd Cymru ar ddatblygiad ei fframwaith cynllunio newydd. Mae Neil hefyd wedi cymryd rhan mewn prosiectau ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc wrth lunio cynlluniau ar gyfer eu cymunedau.

<https://profiles.cardiff.ac.uk/staff/harrisnr>

Mae ymchwil **Dr Neil Turnbull** yn mynd i'r afael â chyfraniadau ar lefel cymdogaeth wrth ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r gwaith hwn yn dogfennu'r cyfyngiadau presennol o gyfiwrdd cyllidol ar lefel awdurdod lleol, yn ogystal â chydabod y gwerth a'r rôl y gall cymuned ei chwarae wrth helpu i nodi materion lleol, rhoi cyfle i drigolion fynegi eu safbwyntiau a chefnogi unigolion bregus.

<https://profiles.cardiff.ac.uk/staff/turnbulln1>

Mymuna Soleman. Mae'r **Caffi Braint** yn fforwm wyneb yn wyneb ac ar-lein a sefydlwyd, ac sy'n seiliedig, ar greu gofod lle mae lleisiau sydd wedi cael eu gwrthio i'r cyrion ers amser maith, bellach yn cael eu croesawu a'u cynnwys, eu parchu a'u clywed. Fel sylfaenydd y caffi roedd Mymuna, un o drigolion Somali-Gymreig sy'n byw yn Butetown, yn canolbwyntio'n llwyr ar greu deialog gadarnhaol a ffocysu ar ddull gweithredu a oedd yn gweithio i dynnu sylw at fraint a'i heffeithiau o fewn cymdeithas.

<https://theprivilegecafe.com/>

Argymhellion ymchwil blaenorol

Daeth y prosiect hwn i'r amlwg o ganlyniad i argymhellion a ddatblygwyd gan aelodau ein tîm wrth gynnal ymchwil flaenorol i sut y gallai ymgynghori â'r gymuned mewn cynllunio a datblygu fod yn fwy teg a chynhwysfawr.

Roedd *Lleisiau Cymunedol Caerdydd* (Mhairi McVicar, Mymuna Soleman a Shoruk Nekeb, Ysgol Pensaerniaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd) wedi'i leoli yng Nghaerdydd fel rhan o brosiect ymchwil ledled y DU a ariannwyd gan yr AHRC, sef *Ymgynghori Cymunedol er Ansawdd Bywydau*, dan arweiniad yr Athro Flora Samuel. Roedd yn rhedeg ar-lein a wyneb yn wyneb mewn 'ystafell drefol' ym Mhafiliwn Grange, yn 2022. Roedd canlyniadau ein hymchwil yn tynnu sylw at botensial ymgynghori i greu cyfleoedd i gwrdd ag eraill, cyfnewid syniadau, teimlo'n rhan o gymuned, a chreu rhwydweithiau newydd. Argymhellodd pobl y dylid dyrannu cyllid yn uniongyrchol i sefydliadau cymunedol presennol i arwain prosesau ymgysylltu, gan ddefnyddio eu dulliau a'u gwybodaeth eu hunain o'u hardal leol.

<https://www.qolf.org/projects/community-consultation-for-quality-of-life-ccqol/>

Roedd prosiect Neil Harris (Ysgol Cynllunio a Daearyddiaeth, Prifysgol Caerdydd) sef *Cael eich magu a byw yn Grangetown* (Matluba Khan, Neil Harris, Tom Smith, Shoruk Nekeb), yn cynnwys gweithdai mapio a cherdded gyda phlant a phobl ifanc yn Grangetown. Pwrpas hyn oedd greu cynllun ar y cyd, wedi'i arwain gan blant, ar gyfer Grangetown. Roedd hyn hefyd yn pwysleisio'r angen i ddefnyddio dulliau creadigol i ymgysylltu â'r gymuned, fel bod y profiad yn hwyl ac yn berthnasol. <https://www.cardiff.ac.uk/stories/building-a-child-friendly-recovery-plan-for-grangetown>

Roedd papur Neil Turnbull sef *Community Action in austerity: The case of Community Asset Transfer* yn nodi'r wleidyddiaeth gofal ac arbrosi ar y cyd a oedd yn galluogi cymunedau i gymryd drosodd asedau yn eu cymunedau drwy 'weithredu gobeithiol', a hynny mewn ymateb i fesurau cyni y DU. Roedd ymchwil Mhairi a Neil Turnbull gyda Phorth Cymunedol Prifysgol Caerdydd yn cefnogi ailddatblygu Pafiliwn Grange fel cyfleuster a arweinir gan y gymuned o dan Drosoglwyddiad Asedau Cymunedol, ac yn nodi potensial partneriaethau preswyl a sefydliadol i rannu adnoddau ac arbenigedd.

Roedd yr egwyddorion craidd hyn – sef bod digwyddiadau ymgynghori dan arweiniad sefydliadau cymunedol yn rhai deniadol, hwyllog, cymdeithasol sy'n meithrin gallu ac yn galluogi gweithredu cymunedol – yn diffinio ein dull o hwyluso ymgysylltu â'r gymuned mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.

Sefydliadau partner

Mae **Action in Caerau and Ely (ACE)** yn sefydliad datblygu cymunedol yng ngorllewin Caerdydd. Ein nod yw creu 'cymunedau bywiog, teg a gwydn i bawb, lle gall pobl fod yn falch o'u hunain, ei gilydd a'u hardal leol'. Rydym yn defnyddio dulliau datblygu cymunedol sy'n seiliedig ar asedau, cydgyhyrchu a dulliau gweithredu cymunedol i adeiladu ar gryfderau lleol, mynd i'r afael â thlodi a chreu llesiant. Rydym yn cynnal llawer o brosiectau gan gynnwys canolfan gymunedol, canolfan dreftadaeth, darpariaeth bwyd fforddiadwy, cyngor ar ddyledion a budd-daliadau, celfyddydau cymunedol, presgripsiynu cymdeithasol, tyfu bwyd yn y gymuned, hyfforddiant a llawer mwy! <https://www.aceplace.org/>

Mae **Common Wealth** yn creu digwyddiadau theatr sy'n benodol i le ac maent yn cwmpasu sain electronig, ysgrifennu newydd, dylunio gweledol a pherfformiad gair am air. Rydym yn gwneud gwaith sy'n berthnasol ac yn mynd i'r afael â phryderon ein hoes. Rydym yn chwilio am leoedd yng nghalon cymunedau i lwyfannu ein gwaith; t^hŷ preswyl, campfa focsio, llefydd nad ydynt yn theatrau confensiynol – ein nod ni yw creu theatr i bobl nad ydynt fel arfer yn meddwl bod y theatr at eu dant nhw. Rydym wedi diflasu ar theatr ar gyfer y dosbarthiadau canol a'r rhai sy'n gallu ei fforddio - rydym wir yn credu mewn theatr a'r pŵer sydd ganddi. Rydym yn credu y dylai'r profiad perthyn i bawb – fel cynulleidfa, cyfranogwyr ac fel prif gymeriadau.

<https://commonwealththeatre.co.uk/cardiff/>

Pafiliwn Grange a Fforwm Ieuentid Pafiliwn Grange Dechreuodd ein stori 10 mlynedd yn ôl, pan ddatblygodd preswylwyr weledigaeth gyffredin am rywle y gallai holl aelodau'r gymuned ddod at ei gilydd. Mae partneriaeth rhwng prosiect Pafiliwn Grange, Gweithredu Cymunedol Grangetown, Prosiect Porth Cymunedol Prifysgol Caerdydd a Chyngor Caerdydd wedi ailddatblygu pafiliwn bowlïo gwag yn gyfleuster cymunedol hardd gyda lle fforddiadwy i'w llogi, caffi sy'n canolbwyntio ar y gymuned, garddio awyr agored a mwy. Mae'r Fforwm Ieuentid yn dod â phobl ifanc at ei gilydd i gymryd rhan a chefnogi gweithgareddau a digwyddiadau, gan hyrwyddo'r Pafiliwn a ffurfio cyfeillgarwch ar yr un pryd. <https://grangepavilion.wales/cy/home/>

Mae **Splott Community Volunteers** yn darparu gwasanaethau ac adnoddau hanfodol o'i ganolfan yng Nghanolfan Gymunedol STAR yn Sblot, Caerdydd, i'r rheini sy'n profi tlodi bwyd a thanwydd. Rydym yn darparu pryd o fwyd poeth a bwyd ffres i fynd yn ein Clwb Brecwast wythnosol ac yn cynnal clybiau cadw'n gynnes dair gwaith yr wythnos yn ystod mis Ionawr, Chwefror a Mawrth. Hefyd, rydym yn cynnig cyngor ar effeithlonrwydd ynni a rheoli dyledion trwy sefydliadau partner a chynnal sesiynau coginio a chreffft, gwella ansawdd bywyd buddiolwyr a chefnogi lleddfu tlodi, ynghyd â chreu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth hirdymor a magu hyder i'n gwirfoddolwyr.

<https://splottcommunityvolunteers.co.uk/>

Cyngor Caerdydd

Mae Simon Gilbert yn Bennaeth Cynllunio yng Nghyngor Caerdydd ac mae wedi gweithio ar draws Polisi Cynllunio, Cadwraeth, Rheoli Adfywio a Datblygu Canol y Ddinas Mae Simon wedi bod ar flaen y gad ym mhob datblygiad mawr yng Nghaerdydd ers bron i 30 mlynedd, gan oruchwylio adfywiad parhaus Bae Caerdydd a dod â Chreu Lleuedd i galon cynllunio dinasoedd, gan sicrhau bod uwchgylluniau cynhwysfawr yn rhan annatod o bolisi cynllunio i ddarparu cymunedau cynaliadwy. Mae Simon yn bersonol gyfrifol am arwain y ddadl ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd. Bydd hyn yn sefydlu'r fframwaith ar gyfer pob datblygiad a thwf newydd yn y ddinas hyd at y flwyddyn 2036. Roedd tîm Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Caerdydd sy'n rhan o'r prosiect yn cynnwys **Stuart Williams, Helen Williams** a **Richard Butler**.

<https://www.cdllcaerdydd.co.uk/>

Cymorth Cynllunio Cymru Mae'n sefydliad annibynnol, elusennol sy'n helpu unigolion a chymunedau ledled Cymru i gymryd rhan yn y system gynllunio mewn modd fwy effeithiol.

<https://planningaidwales.org.uk/?lang=cy>



Planning Aid **Wales**
Cymorth Cynllunio **Cymru**

Llinell amser y prosiect

Tachwedd 2023-Ionawr 2024

Lansiad y prosiect

Mapio sefydliadau yng Nghaerdydd a Chymru

Disgrifiadau rôl a chwmpas gwaith ar gyfer partneriaid prosiect

Chwefror 2024

Tîm y prosiect yn lansio gweithdy a chyflwyniad i'r Cynllun Datblygu Lleol

Mawrth 2024

Digwyddiad lansio Rhwydwaith Cyngori Cynllun Datblygu Lleol

Ebrill 2024

Gweithdy tîm prosiect i ddiffinio nodau cyfunol a ffyrdd o weithio

Mai-Mehefin 2024

Diwrnod hyfforddi'r Cynllun Datblygu Lleol (Cymorth Cynllunio Cymru, Cyngor Caerdydd)

Camau ymgysylltu cynllunio

Gweithdy Rhwydwaith Cyngori Cynllun Datblygu Lleol 2

Gorffennaf-Medi 2024

Paratoi ar gyfer camau ymgysylltu

Medi 2024

17 a 21 Medi 2024 – Taith Bws Sblot

18 Medi 2024 – Gweithdy Gweithredu ACE

21 Medi 2024 – Common Wealth Sut i Adeiladu Tref

24 Medi 2024 – Lansiad a gweithdy ffilm Pafiliwn Grange a Fforwm Ieuenctid Pafiliwn Grange

Hydref - Tachwedd 2024

Ysgrifennu sgysiau encil a myfyriol

Rhagfyr 2024

Fforwm cyhoeddus Privilege Café: "NID wyf yn anodd ei gyrraedd: Cynlluniau Creadigol, Ymgysylltu a Datblygu Lleol"

Tîm y prosiect: ein nodau cyffredin

Cyfnewid sgiliau

'cyfoethogi, nid tlodi' (cyf: Phillip Henry)

Addysgu

datblygu dealltwriaeth ehangach, rhyngom ni a'r bobl rydym yn cydweithio â nhw, o sut mae prosesau datblygu / cynlluniau datblygu lleol / cynlluniau bro yn gweithio.

Hyfforddi ein hunain ac eraill ymgymryd â hyfforddiant mewn perthynas â phrosesau cynllun datblygu lleol a phrosesau cynllun bro, a hyfforddi eraill i ddechrau efelychu a lledaenu'r prosesau hyn.

Gofal

dangos gofal am sut rydym gweithio gyda phobl, nid 'targedu' pobl.

Adeiladu Ymddiriedaeth

meddwl yn ofalus am iaith a therminoleg, osgoi jargon, defnyddio sawl iaith, osgoi cwestiynau arweiniol neu wedi'u llwytho

Codi ymwybyddiaeth o brosesau'r Cynllun

Datblygu Lleol aychwanegu gwerth at y broses ymgynghori ffurfiol, cefnogi ymwybyddiaeth pobl o sut y gallant gyfrannu at gynlluniau datblygu lleol a gosod cynlluniau a rhoi tystiolaeth ardal leol ar waith i ddechrau prosesau'r Cynllun Bro.

Gwella ein dealltwriaeth

o sut y gall polisiau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol wneud gwahaniaeth mewn ardaloedd lleol – nodi arferion gorau, argymell ffyrdd o gryfhau polisiau, datblygu gwell dealltwriaeth o sut mae gwahanol bolisiau yn perthyn i'w gilydd.

Adborth

Creu moment 'cylch llawn' sy'n cyfleu'r hyn sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r prosiect, ac sy'n helpu pobl i ddeall rhesymau dros benderfyniadau yn y dyfodol.

Cydweithio

dod â chynrychiolwyr a chymunedau'r Cyngor yn agosach at ei gilydd i archwilio posibiladau ar gyfer lle gall cymunedau gael pŵer i ddatblygu yn eu hardaloedd. Helpu i greu cysylltiadau gwell â chynrychiolwyr y Cyngor. Cyd-fynd â chysylltiadau ar draws Cyngor Caerdydd: help gyda chyfeirio at feysydd cymorth perthnasol.

Adnabod sgiliau a chryfderau cymunedau a gwerth gwybodaeth leol ac asedau presennol

mae pobl yn rhedeg adeiladau, gwasanaethau, prosiectau ac yn meddu ar wybodaeth leol nad yw bob amser yn weladwy. Gwerthfawrogi'r hyn sy'n bodoli: archwilio ffyrdd o fapio treftadaeth a gwerth cymdeithasol asedau presennol. Mapiwch y pethau cadarnhaol i ddechrau gyda'r hyn y mae pobl eisoes yn ei werthfawrogi yn eu hardal.

Dysgu gan gymunedau

ldysgu o'r hyn sy'n wahanol a'r hyn sy'n gyffredin ar draws ein cymunedau amrywiol. Gweithio gyda'n gilydd i gefnogi pobl leol i wneud pethau lleol.

Nodi cyfleoedd gyfer
Trosglwyddo Asedau a pherchnogaeth gymunedol o ddatblygiad.

Gwneud y broses ymgynghori yn hwyliog, yn ddymunol, yn berthnasol

Bwyd a phaentio wyneb; cyfnewid sgiliau; dadl a thrafodaeth: amrywiaeth o ddulliau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, nid un dull sy'n addas i bawb.

Canlyniadau real

Datblygu'r broses ymgynghori fel profiad cyfoethog sy'n adfer/adeiladu ffydd mewn prosesau ymgynghori: dangos sut y bydd llais pobl yn gwneud gwahaniaeth trwy ganlyniad diriaethol. Dod o hyd i lwybrau i droi syniadau'n realiti – archwilio'r rhwystrau sy'n atal hyn rhag digwydd.

Hyder i'r sefydliadau sy'n ymwneud â chyflawni'r prosiect y gellir rheoli disgwyliadau'r gymuned bod yn glir am y cwmpas a'r hyn y gallwn ei gyflawni yng nghwmpas y prosiect. Peidiwch â cholli ymddiriedaeth sydd eisoes wedi'i hennill.



Tîm Prosiect: ein ffyrdd o weithio

Parch a Gwranddo

Cymunedau yn cymryd cyfran o'r
cyfrifoldeb: ni all y Cynllun Datblygu
Lleol ddatrys popeth - cymorth gyda
chyfeirio at adnoddau perthnasol a all
fynd i'r afael â materion ehangach

Gweithio mewn ffordd gadarnhaol: peidio
â chanolbwyntio ar lais negyddol yn
unig - dilynwch egni cadarnhaol a
rhagweithiol

Bod yn garedig

Annog syniadau mawr gyda llwybrau i'w
cyflwyno

Rhoi dilysrwydd i wahanol ffyrdd o
weithio

Dod â chwilfrydedd meddwl agored ac
ewylllys da

Archwilio perthynas gadarnhaol rhwng y
'wladwriaeth' a'r 'gymuned'

Disgwyl ansawdd

Lansio Rhwydwaith Cyngori

Cynhaliwyd digwyddiad lansio Rhwydwaith Cyngori y Cynllun Datblygu Lleol ar 19 Ebrill 2024 ym Mhrifysgol Caerdydd. Roedd y digwyddiad dan arweiniad tîm ymchwil Prifysgol Caerdydd gydag adran Cynllunio Cyngor Caerdydd, a phartneriaid sefydliadau cymunedol (Action in Caerau and Ely (ACE), Common Wealth, Pafiliwn Grange a'r Fforwm Ieuencid Pafiliwn Grange, a Splott Community Volunteers).

Nod y digwyddiad oedd dwyn ynghyd unigolion a sefydliadau a allai gefnogi ymgysylltu â chymunedau wrth wneud penderfyniadau ynghylch datblygiad eu hardaloedd lleol yn y dyfodol. Daeth 37 o bobl i'r digwyddiad, a hynny wedi anfon 130 o wahoddiadau i gynrychiolwyr sefydliadau cymunedol, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, academyddion, sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat, y gallai eu gwaith lywio a/neu gael ei effeithio gan Gynllun Datblygu Lleol Caerdydd.

Cafodd cysylltiadau eu dewis o gronfa ddata prosiect barhaus sy'n cynnwys dros 600 o gysylltiadau unigol a sefydliadol, ynghyd â chwilio bwrdd gwaith ychwanegol ar y rhyngwyd i ymgysylltu â chymunedau/sefydliadau eraill o le/diddordeb sy'n gysylltiedig ag agweddau allweddol o'r Cynllun Datblygu Lleol.


Dechreuodd y gweithdy gyda chyflwyniad byr i'r Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynlluniau Bro, ac yna pedair set o sgysiau yn digwydd ar yr un pryd gyda phob sefydliad cymunedol wedi'i drefnu fel grwp gwrando ar bedwar bwrdd gwahanol o amgylch yr ystafell gweithdy.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol rannu pa fath o waith / gwybodaeth / arbenigedd / adnoddau / syniadau / argymhellion / ac ati, y gallent eu cyflwyno i lywio sut y gallai cymunedau ymgysylltu â chynlluniau datblygu lleol a chynlluniau bro.

Hwyluswyd y digwyddiad gan ddefnyddio nodau a ffyrdd o weithio cyffredin tîm ein prosiect.



My question for ACE is...



.....

.....


.....

.....

.....



My question for CommonWealth is...




.....

.....


.....

.....

.....



My question for Grange Pavilion is...



.....

.....


.....

.....

.....



My question for Splott Community Volunteers is...



.....

.....

.....

.....

.....

Arbenigedd a blaenoriaethau'r Rhwydwaith Cyngori

Roedd y meysydd allweddol o ran arbenigedd a diddordeb a nodwyd gan unigolion a sefydliadau yn y gweithdy lansiad Rhwydwaith Cyngori y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys:

Amgylchedd adeiledig: tai, treftadaeth a mannau cyhoeddus

- Cartrefi gyda gwerth cymunedol.
- Effaith isel, yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy.
- Adeiladau treftadaeth.
- Lle cael cymorth a siapiau mannau cyhoeddus.
- Prosiectau catalydd, defnyddio adeiladau sydd heb eu defnyddio ddigon, grymuso cymunedau, cydnabod fy mhrofiad / profiad menyw o'r ddinas a sut mae'r ddinas yn cael ei hadeiladu.

Cydgynhyrchu ac asiantaeth

- Grym cyfunol – gweithredu a dylanwadu - partneriaid / gwrthwynebwyr LTO (Sefydliadau Lleol Dibynadwy).
- Mae cymunedau lleol yn rhan o'r broses gynllunio o'r dechrau i'r diwedd mewn ffordd ystyrlon, sydd o fudd iddynt ac sy'n adeiladu eu grym.
- Mae asedau cymunedol lleol yn gweithio gyda'i gilydd, i sbarduno newid... Beth bynnag fo'u cefndir, eu hethnigrwydd a'u cefndir diwylliannol.
- Cydweithredu, tryloywder a dylunio o ansawdd da, creu lleoedd ac ysgogi gwir werth cymdeithasol / ymrwymiad.

Addysg, sgiliau, menter a'r economi:

- Creu swyddi, Lleihau tlodi
- Addysg / mentora / datblygu sgiliau / mynediad at gyllid.
- Lleihau anghydraddoldebau.

Amgylchedd a natur

- Argyfwng hinsawdd a natur sy'n effeithio ar Gaerdydd nawr a thu hwnt 2036.
- Ymgysylltu cymunedau â mannau agored + deall bioamrywiaeth, cadwraeth, blaenoriaethau sefydliadau, Un Blaned, ac ati.
- Gwyrddio Caerdydd – Rhwydweithiau Gwyrdd / cymdeithasol
- Gwella mannau gwyrdd, cynyddu gwymbodaeth y cyhoedd am yr amgylchedd.

Iechyd a lles:

- Cymdogaethau 20 munud
- teithio llesol, yn ddiogel ar gyfer cerdded, olwyno a beicio, aer glân, cymdogaethau iach.
- Cefnogi Sefydliadau Lleol Dibynadwy newydd a sydd eisoes yn bodoli gyda'u cynnig ar gyfer chwaraeon lleol.
- Iechyd y boblogaeth, Iechyd planedol.

Adnoddau a chymorth y Rhwydwaith Cyngori

Yn ystod lansiad Rhwydwaith Cyngori y Cynllun Datblygu Lleol, gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol drafod a chyfeirio at feysydd cymorth posibl, adnoddau presennol ac arbenigedd sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â'r gymuned mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Cynigwyd y meysydd cymorth canlynol:

Gwybodaeth ac adnoddau gan y Brifysgol

ymgysylltu a chreu lleoedd / Ymgysylltu a myfyrwyr / Mynediad at rwydweithiau presennol / Adnoddau ymchwil presennol.

Dulliau o ymgysylltu/archwilio gwybodaeth gyda chymunedau

Rhwydweithio / Cydgynhyrchu gyda phobl ifanc / Hyfforddiant mewn trefnu cymunedol / Rôl cynulliadau dinasyddion / Academia ddinesig / Datblygu partneriaethau / Digwyddiadau ymgysylltu / Mynediad i fannau cymunedol / Cyfraniad i ddigwyddiadau cymunedol / Cydgynhyrchu naratifau lleoedd / Naratifau gweledol / Amser gwirfoddoli / Ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n seiliedig ar natur.





Image: Jon Poutney

Camau ymgysylltu



Image: Efa Blossie-Mason, Paolo Russo



SPLOTT COMMUNITY VOLUNTEERS TAITH BWS



Bus
Tour
Pass

Splott Community Volunteers' Bus Tour 2024.

Tuesday 17th September

Arrive: 10:00am

Boarding: STAR Leisure Centre.

Depart: 10:30am

Half-Way: Picnic at Tremorfa Park.

Return: 13:00am

Please inform us, when you RSVP, of any dietary requirements for the picnic lunch and of any additional needs.

RSVP - before Friday 6th September
To: info@splottcommunityvolunteers.co.uk



A sight-seeing tour of Splott & Tremorfa. A chance to share your memories, thoughts and ideas.

Roedd ein strategaeth wedi cydnabod pwysigrwydd unrhyw sgysiaiu cychwynnol, dysgu, a chyfnewid gwybodaeth sy'n digwydd ar lawr gwlad. Cafodd ein gwaith ymgysylltu ei ysbrydoli gan yr arfer o gynnal taith bws ar y gymuned dosbarth gweithiol, a wnaeth gyflwyno pobl i brofiad bywyd yn y Sblot, yn ei wir oleuni. Yn ystod y daith bws o amgylch y Sblot a Thremorfa, fe wnaeth y bws stopio yn y prif leoliadau a roddodd gipolwg ar y tirweddau cudd, yn ogystal â maint a dyfnder y datgysylltiad rhwng y bobl a'r lle.

Wrth baratoi at y daith bws, dyma'r cwestiynau a ddaeth i gof gennyn ni:

C1) Sut mae'r ddinas yn rhagweld y rôl y bydd y Sblot/Tremorfa yn ei chwarae yn nyfodol y ddinas, ac yn mynegi hynny?

C2) Yn achos y Sblot, y cwestiwn yw: Sut mae'r Sblot/Tremorfa yn gweld ac yn mynegi ei rôl yn nyfodol y Ddinas?

Dyma le mae Cynllunio a Phrofiad Byw y rhai y 'Cynllunnir ar eu cyfer' yn dod i'r amlwg. Nid yw hyn yn gyrchfan ynddo'i hun – ond yn hytrach yn destament ac yn mynegiant o'r gwerth rydyn ni'n ei ddangos i ni'n hunain ac i bobl eraill.

Cynhaliwyd ein taith bws gyntaf ar 17 Medi 2024, ac roedd aelodau gwadd o gymuned Sblot, Cyngor Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd gyda ni. Gwnaethom ni ddefnyddio mapiau llwybrau wedi'u printio i gychwyn sgwrs ac i sbarduno atgofion wrth ymweld â lleoliadau preswyl, diwydianol, ysgol, parc ac arfordirol ar draws Sblot. Roedd rhai lleoliadau'n adnabyddus i'r mwyafrif. Nid oedd rhai o'r rheini oedd ar y bws erioed wedi ymweld â rhai o'r ardaloedd gan gynnwys trigolion tymor hir Sblot. Roedd uchder y bws yn rhoi persbectif gwahanol, hyd yn oed ardaloedd adnabyddus.

Cafodd y daith, gwahoddiad yn unig, ei dilyn gyda diwrnod agored cyhoeddus ddydd Sadwrn 21 Medi 2024 lle roedd bws clasurol o Gaerdydd yn ailadrodd llwybr y daith drwy'r dydd.

Ynghyd â'r daith, roedden ni wedi gosod posteri Cynllun Datblygu Lleol yn lleoliad Gwirfoddolwyr Cymunedol y Sblot, ac wedi annog pobl i gyfrannu eu barn, eu syniadau, eu hatgofion a'u cwestiynau drwy gyfnewid mewnbwn am docyn raffl i gael y cyfle i ennill 'ffwrn ffrio ag aer fawr'!



WALKER ROAD



SPLOTT ROAD



SPLOTT
COMMUNITY VOLUNTEERS

Observations, Comments,
& Ideas

Observations, Comments,
& Ideas

Splott Community Volunteers' Bus Tour 2024.

A sight-seeing tour of Splott & Tremorfa. A chance to share your memories, thoughts and ideas.

Please tell us: The first 4 digits of your postcode:

Please tick: Local Resident Visitor to Splott Visitor to Cardiff Visitor to Wales Other

Below are some questions that might help when filling in this feedback sheet, while on the tour

How well does Splott work for you?

How do you travel around in Splott?

In what way has Splott changed for the better?

How do you think others 'see' or understand Splott?

What changes would make Splott better for you?

How often do you access Splott's public spaces?

What parts of Splott do you visit most and least and why?


How do you value Splott's public spaces?



Looking back to know the present,
to help shape the future.

DESIGN: GREANE





Delwedd: Richard Powell





Delwedd: Richard Powell



Delwedd: Richard Powell



Delwedd: Richard Powell

Beth ddywedodd pobl wrth SCV

Mynediad i fannau gwyrdd, manau gwyllt ac ardaloedd chwarae naturiol. Disgrifiwyd manau gwyrdd fel rhai sy'n cefnogi iechyd meddwl, gan liniaru yn erbyn effeithiau diwydiant mawr ac ynysoedd gwres trefol, yn ogystal â bod yn weledol hardd, wedi'u defnyddio'n dda, ac yn hyrwyddo bywyd cymdeithasol, economi gylchol a hunangynhaliath.

Beth ellir ei adeiladu ar Willows High? Agosatrwydd y gwaith dur. Mae tai + choedwig drefol, sinc carbon, rheoli llygredd a gwlyptiroedd yn ffyrdd o liniaru llygredd”

“Gan fy mod yn byw mewn tŷ teras does dim ardaloedd gwyrdd ac mae hyn yn fy ngwneud i'n isel”

“Aber wedi'i warchod sy'n SoDdGA [Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig]. Mynediad cyfyngedig i'r cyhoedd. A ellir gwella hyn? Dim cysylltiad â Llwybr yr Arfordir.”

“Brwydro yn erbyn ynysoedd gwres gyda mwy o goed.”

“Mae llyisiau lleol sy'n cael eu rhannu â phobl leol yn rhywbeth arbennig iawn.”

“Wnes i erioed sylweddoli bod yna berllan geirios ym mhendraw'r “Bun” Nid oes angen i ni fynd i Japan i fwynhau'r blodau ceirios hardd,”

“Llawer o goed a gwyrddni ond dim pobl. MOR agos at y Bae a'r Arfordir a doeddwn i ddim yn sylweddoli!”

“A allwn ni gysylltu'r holl barciau â choridorau gwyrdd? Mae ymweld â pharciau yn ei gwneud hi'n glir pa mor werthfawr yw hyd yn oed y rhai bach. Mae yna berlau bach gwyrdd ar hyd a lled Sblot!”

Amwynderau annigonol a cholli asedau cymunedol

Disgrifiodd preswylwyr fod colli cyfleusterau cymunedol poblogaidd bob dydd yn effeithio ar economi, bywyd cymdeithasol a chymeriad lleol.

“Mae angen dod o hyd i le i gynnal farchnad gymunedol!”

“Roedd gennym ni lawnt fowlio.
BETH NESAF?”

“Beth wnaethon ni ei gollu’n gymdeithasol pan aeth y farchnad? A fydd y cyfleusterau newydd ar gael i’w defnyddio yn y gymuned ar ôl ysgol?”

“Wedi colli cigydd, siop elusen anhygoel, Swyddfa’r Post, siopau trin gwallt.”
“Byddai’n braf cael banc, Gorsaf Heddlu, Llyfrgell!”

Gwerthfawrogiad o ddatblygiadau a mentrau diweddar

“Ailddatblygu’r Parc Maltings - gwaith hyfryd ynghyd â’r Parc sglefrfyreddio, sy’n cael ei ddefnyddio’n dda gan y gymuned.”

“Mae Parc Malting yn wych ac yn gweithio mor dda. Mae llawer o’r ardal ar agor ac mae mynediad yn rhad ac am ddim”

“Mae Gerddi’r Rheilffordd yn ddefnydd hyfryd o dir segur. Byddai’n braf petai ar agor yn amlach.”

“Gwych i gael pwll nofio. Ond mae angen bod ar agor yn hwyrach fel bod pobl sy’n gweithio’n llawn amser yn gallu mynd yno.”

Cwestiynau am ddyfodol Sblot

“Beth sy’n digwydd i’r hen lyfrgell?”

“Lle ar gyfer fferm wynt? Dyfodol y gwaith dur?”

“Byddai’n wych cael canolfan dreftadaeth yma’n Sblot tebyg i Gaer Heritage yn Nhrelái”.

“Mwy o gyfleusterau wedi’u cynllunio [ym Mharc Maltings]? Anaml iawn y mae’r cwrt pêl-fasged yn Adamsdown yn wag.”

Sylwadau negyddol yn cynnwys canfyddiadau o deimlo’n annïogel, delio cyffuriau, a diogelwch menywod ger y Gylchfan Hud, gwydr mewn parciau, diffyg goleuadau stryd, tipio anghyfreithlon, amgylcheddau gelyniaethus oherwydd ffensio uchel a gwifren bigog, effaith diwydiant mor agos, a heriau trafndiaeth:

“Nid yw cymunedau yn gallu cael mynediad at ardaloedd gwyrdd/traeth oherwydd safleoedd diwydiannol.”

‘Ffens uchel ac anghyfeillgar’

‘Dim cysylltiad rhwng y gymuned a diwydiant bellach’

“Mae’r traffig yma yn ddrwg. Mae’n debyg bod yna lawer o swyddi. Dyw e ddim yn bert.”

“Disodli’r ysgol gyda chyfleusterau cymunedol – parc antur, dôl wyllt, rhandiroedd a thai!! Gyda darpariaeth ar gyfer yr henoed a’r anabl.”

Cymorth cymunedol

Nodwyd mai asgwrn cefn y gymuned yw’r grwpiau cymunedol a’r gwirfoddolwyr a bod diffyg manau parhaol ar gyfer manau cymunedol yn fygythiad. Nodwyd bod y ddarpariaeth bresennol ar gyfer pobl ifanc yn cael ei gwerthfawrogi ac mae angen ei diogelu. Roedd cymuned Sblot ei hun yn sefyll allan fel un llawn menter a gwydnwch.

“Mae gennym ysbryd cymunedol sy’n cefnogi ein gilydd”

“Mae ‘na lawer o rwydweithiau sy’n dod â chyfoeth i’r ardal - nhw sy’n gwneud Sblot”.

“Mae system gefnogaeth gymunedol gref iawn yn gweithio yn Sblot. Rydym yn gwneud ein gorau i ofalu am ein gilydd gyda gofal a pharch.”

Myfyrdodau Splott Community Volunteers

Ychydig neu ddim o gwbl a wyddai'r cyfranogwyr am y Cynllun Datblygu Lleol, felly yr awgrym cyntaf oedd bod lledaenu gwybodaeth am y CDLI wedi gwella'n sylweddol (mewn fformatau hygyrch, hawdd eu deall).

Roedd cyfranogwyr hefyd yn awyddus i wneud penderfyniadau ar lefelau lleol, datblygu cyngorau cymuned a rhyngweithio'n ymarferol â chynlluniau bro yn y dyfodol.

Dylai'r CDLI gynnwys cynllun llwybr i addysgu pobl am y ffordd i ddylunio a diffinio beth ddylai cynllun bro fod.

Pwynt Allweddol 1 – Atebolrwydd Democrataidd

Ni ddylai difaterwch y gorffennol o ran yr hyn y mae'r ddinas yn ei wneud gyda Sblot, ac i Sblot, gael ei gymryd yn ganiataol mwyach. Mae ymgysylltu mwy eang ar draws wardiau â'r CDLI yn flaenoriaeth ac yn anghenraid; newid mewn ymddygiad o bob safbwynt (cyngor, cymuned, prifysgol).

Pwynt Allweddol 2 – Datblygiad Democrataidd

Mae'r Sblot eisoes wedi cael newid enfawr - colli ei werth economaidd a'i bri yn y ddinas. Nid yw'r bobl yn gwrthwynebu newid ond maen nhw eisieu cymryd rhan yn y newid hwnnw. Os yw'r dref am gael ei "huwchraddio", yna ni ddylai ddod ar draul yr hyn sy'n bodoli eisoes. Ni ellir defnyddio'r Sblot fel tir dympio.

Pwynt Allweddol 3 – Dim Cysylltiad

Mae pobl yn gwerthfawrogi undod manau cymdeithasol (megis Gerddi'r Rheilffordd, rhandiroedd a Gwirfoddolwyr Cymunedol Sblot yn y STAR) ac yn teimlo nad oes ganddynt gysylltiad â ganol y ddinas (a'r buddsoddiad mewn manwerthu masnachol a hamdden y mae'r ganolfan wedi elwa ohono). Maent hefyd yn teimlo nad oes ganddynt gysylltiad â'r tirwedd (yr aber, Traeth Sblot, afon Tredelerch, y tir o amgylch yr hofrenfa) oherwydd bod y diwydiant trwm ar hyd Ocean Way a Rover Way yn eu rhwystro.

Pwynt Allweddol 4 – Cydlyniant

Mae'r gymuned yn Sblot yn gadarn, ond gellir difrodi'r undod yn hawdd trwy gael gwared yn anfwriadol (hyd yn oed am gyfnod byr) ar ychydig o gyfleusterau allweddol a reolir gan y Cyngor ond a weinyddir gan y gymuned, gan gynhyrchu rhaeadr o ganlyniadau niweidiol yn gymdeithasol.

Y Cam Nesaf: Dod o hyd i'r 'hyrwyddwr'

yng Nghyngor Caerdydd, neu mewn rhywle arall, i weithio ar y cyd â'r gymuned/oddi mewn iddi er mwyn llunio Cynllun Lle sy'n benodol i'r Sblot. Rydyn ni'n cydnabod y bydd hyn yn gofyn am newid yn y berthynas a geir ar hyn o bryd rhwng cymunedau a systemau strwythurol y cyngor.

Action in Caerau and Ely (ACE) Gweithdy Mannau Gwyrddp



ace

Action in Caerau & Ely
Gweithredu yng Nghaerau a Threlai

Rhwng 2023-2024, cafodd ACE wahoddiad gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Caerdydd a swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i arwain ymarfer gwrandio mawr i nodi cryfderau a brwydrau ein cymuned. Cynhaliwyd digwyddiadau, arolygon a sgysiau agored gyda dros fil o drigolion Trelái a Chaerau i greu Cynllun Cymunedol ar gyfer Trelái a Chaerau ar y cyd. Mae'r cynllun gweithredu cymunedol, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024, yn nodi 40 o gamau gweithredu o dan 6 thema.

Roedd ein hymagwedd at ymgynghoriad Cynllun Datblygu Lleol yn seiliedig ar y berthynas a ddatblygwyd drwy'r ymarfer gwrandio ac yn canolbwyntio ar un o'r themâu a nodwyd: Mannau a'r amgylchedd – datblygu a gwella manau gwyrdd.

Ym mis Medi 2024, gwahoddwyd aelodau o grwp llywio'r Cynllun Cymunedol ac unigolion a sefydliadau cymunedol eraill a oedd â diddordeb mewn manau gwyrdd lleol. Bu Tyfu Caerdydd, Gerddi Amlwg, Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd, gwirfoddolwyr cymunedol, clybiau chwaraeon lleol a staff ACE i gyd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd mapio cyfranogol yn archwilio manau gwyrdd Trelái a Chaerau.

Roeddem am ddefnyddio'r gweithgaredd i archwilio cryfderau manau gwyrdd yn ein hardal, yn ogystal â'r heriau, y defnydd presennol ohonynt â'r dyheadau ar eu cyfer yn y dyfodol. Gwnaethom ddefnyddio ffotograffau a chardiau lluniau Evoke i archwilio sut rydym yn teimlo am fannau gwyrdd, sut rydym am eu defnyddio a pha gyfrifoldeb rydym am ei gymryd ar eu cyfer.

Gofynnem i bawb nodi manau gwyrdd lleol allweddol ar y map mawr gan ddefnyddio sticeri wedi'u rhifo, a disgrifio eu 'eiliadau hud' sy'n gysylltiedig â'r lleoedd hyn. Buom yn trafod cryfderau, heriau a dyheadau ar gyfer y manau gwyrdd hyn, gan ystyried yr hyn rydym am ei flaenoriaethu gyda'n gilydd ar gyfer newid, a phwy allai helpu i wneud i hyn ddigwydd.

Fe wnaethom orffen gyda sgwrs am y goblygiadau tymor hir i'r Cynllun Datblygu Lleol, yn ogystal â chyflwyno dwy enghraifft newydd o brosiectau manau gwyrdd y gallai pobl gymryd rhan ynddynt ar unwaith, gan nodi cyfleoedd ar gyfer gweithredu tymor hir a thymor byr.

Beth ddywedodd pobl wrth ACE

Roedd pobl yn y gweithdy yn rhoi sticeri wedi'u rhifo ar fap o Drelái a Chaerau, yn cwblhau ffurflenni yn disgrifio eu 'Eiliadau Hud', yn trafod yr hyn y mae pobl yn defnyddio'r gofod ar ei gyfer ar hyn o bryd, cryfderau a chyfleoedd y gofod, gwendidau a heriau, grwpiau neu sefydliadau cymeradwy sydd eisoes yn defnyddio'r gofod a beth y gellid defnyddio'r gofod ar ei gyfer.

Eiliadau hud

“Rec fel enaid Ely”

Disgrifiodd y cyfranogwyr atgofion plentyndod o fwyta cynnyrch ffres, cartref, ac roeddent am basio'r eiliadau hyn ymlaen i'r genhedlaeth nesaf. Roedd yr atgofion yn cynnwys partion gardd gydag oedolion a phlant yn helpu, plant lleol yn dod yn wirfoddolwyr, chwarae yn y parc, plant yn mwynhau manau gwyrdd a bywyd gwyllt, ac yn tyfu, rhannu a choginio bwyd ynghyd â phobl nad oeddent erioed wedi tyfu bwyd o'r blaen.

Mannau gwyrdd ac addysg.

“Mae angen rhannu mwy o wybodaeth rhwng grwpiau a sefydliadau.”

Nododd y cyfranogwyr fod manau gwyrdd yn cael eu defnyddio gan ysgolion i ddangos bywyd gwyllt, a mynegodd ysgolion ddiddordeb mewn cynyddu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth. Amlygwyd angen cyfnewid gwybodaeth: nododd rhai cyfranogwyr eu bod yn gallu cyfathrebu gwybodaeth am fioamrywiaeth, tra bod eraill yn mynegi diddordeb mewn cael gafael ar fwy o wybodaeth am fioamrywiaeth a gofal manau gwyrdd.

Perthynas â'r Cyngor

“Pwy sydd â'r pŵer a'r gallu i wneud penderfyniadau a gwneud i bethau ddigwydd?”

O ran mannau gwyrdd, cafodd perthynas cyfranogwyr â'r Cyngor ei disgrifio un sy'n gysylltiedig â chyfreithlondeb defnyddio gofod a chaniatâd i wneud hynny. Mae gwahanol fathau o ddefnydd mannau gwyrdd yn gofyn am wahanol lefelau a mathau o gynllunio a chaniatâd gan y tirfeddiannwr a allai fod yn Gyngor neu beidio. Cafodd y weithred o gael gafael ar wybodaeth am dir, a gwybod â phwy i gysylltu yn y Cyngor ynglŷn â defnydd tir, ei disgrifio fel her, gyda'r angen am help i nodi llwybrau at weithredu. Awgrymodd y cyfranogwyr bod angen mwy o arweiniad i helpu aelodau'r gymuned i weithredu eu syniadau mannau gwyrdd, fel “Pecyn Cymorth i helpu sefydliadau llai i ymgysylltu â'r cynllun datblygu lleol a rhoi sylwadau arno.”

Thema allweddol oedd y bygythiad y bydd mannau gwyrdd yn cael eu cymryd oddi ar y gymuned, gyda phryderon y byddai parciau a rhandiroedd presennol yn cael eu datblygu, ac yn sgil hynny “ni fydd mannau diogel i'n plant gymdeithasu”, ac y byddai datblygwyr tai yn cael caniatâd er gwaethaf gwrthwynebiad cymunedol.

“Gallu CDLI i ddyrannu tir ar gyfer mannau tyfu bwyd cymunedol? Dod o hyd i wybodaeth am berchnogaeth tir. Trafod gyda pharciau, gweithwyr cynnal a chadw, e.e. amserlenni torri gwair a defnyddio phlaladdwyr ac ati”

“Y foment bwysicaf oedd achub y tir rhag datblygu tai arno 20 mlynedd yn ôl.”



Llwyddiant Mannau Gwyrdd

“Mae'r gymuned leol eisiau man gwyrdd y gellir ei rannu a'i defnyddio fel ardal tyfu bwyd cymunedol. Mae gan bobl ardd treftadaeth Undod a Chaer eisoes ar gyfer dosbarthu a chasglu bwyd ond mae angen ardal llawer mwy - mae gan bobl ddiddordeb cryf ac maent o bosibl yn ymrwymedig iawn i dyfu cynnyrch.”

Disgrifiodd y cyfranogwyr llwyddiant manau gwyrdd o ran hygrychedd da, nifer yr ymwelwyr uchel a'r defnydd rheolaidd, agosrwydd at gyfleusterau cymunedol a phreswyl, manau i dyfu bwyd, porthiant, amrywiaeth o opsiynau ar gyfer chwarae, a bioamrywiaeth uchel o fflora a ffawna. Roedd sylwadau negyddol yn canolbwyntio ar tipio'n anghyfreithlon, fandaliaeth, defnyddio alcohol a chyffuriau mewn manau gwyrdd, a manau nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Iechyd meddwl ac unigrwydd

““heddwch a thawelwch, iechyd meddwl. Rhywle i gael llonydd. Gardd gof i blant oedd wedi colli eu mamau”



Nodwyd bod manau gwyrdd yn bwysig ar gyfer cefnogi pobl â heriau iechyd meddwl a chorfforol neu'n cael trafferth gydag unigrwydd, fel manau i gwrdd â phobl drwy wirfoddoli, yn enwedig os ydynt yn newydd i'r ardal neu i'r DU; cafodd manau gwyrdd eu disgrifio fel manau ar gyfer cysylltu, heddwch a thawelwch, a rhywle i gael llonydd, gyda gerddi coffa yn cael eu crybwyll.

“Digon o le gwyrdd, ond mae angen rhywle o ansawdd a gofalu am fannau gwyrdd hefyd.”

Cynnal mannau gwyrdd

Disgrifiodd y cyfranogwyr yr heriau o ran dod o hyd i rywun i gynnal mannau gwyrdd yn rheolaidd. Awgrymodd rhai cyfranogwyr y gallai aelodau'r gymuned wneud hyn, fel trigolion lleol ac ysgolion yn rhan o weithgaredd wedi'i drefnu, ond nodwyd y byddai angen rhyw fath o wobwr neu gydnabyddiaeth i wirfoddolwyr ar hyn.

Myfyrdodau ACE

perthnasoedd a chysylltiadau:

Cafodd perthnasoedd a chysylltiadau eu creu drwy'r gweithdy, gan gryfhau'r sail ar gyfer dull cydweithredol o weithredu cymunedol ar gyfer Mannau Gwyrdd yn Nhrelái. Roedd y digwyddiad yn cefnogi datblygiad rhwydwaith newydd o 'weithredwyr' lleol sydd â diddordeb mewn gweithredu a dylanwadu gyda'i gilydd.

Cyfnewid gwybodaeth a syniadau:

Fe wnaethon ni greu map gwych ar y cyd o fannau gwyrdd allweddol gyda chryfderau, asedau, heriau a chyfleoedd i bob un, gan drafod llawer o wybodaeth leol am fannau gwyrdd a bioamrywiaeth leol. Roedd hyn yn rhoi gwell ymdeimlad i ni o botensial mannau gwyrdd.

Dylanwad a chyfranogiad:

Gwnaethom grynhoi y bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn gymhleth ac yn anodd dylanwadu arno, ac fel cymuned mae angen i ni adeiladu ein dealltwriaeth a'n grym. Yn y gweithdy, cawsom dystiolaeth o frwdfrydedd y gymuned a'r awydd i weithredu, yn ogystal â chadarnhad o barodrwydd y gymuned i gymryd cyfrifoldeb a chymryd rhan mewn newid. Gellir dod o hyd i chyfleoedd wrth ddatblygu Cynllun Bro dan arweiniad y gymuned.



Common Wealth: Sut i Adeiladu Dinas



Yn ystod haf 2024, cynhaliodd Common Wealth sgysiau am Laneirwg gyda thrigolion lleol drwy gynnal parti gardd a phum cyfweiliad unigol. Addaswyd y sgysiau wedyn gan yr awdur Patrick Jones i greu sgrïpt berfformio.

Daeth preswylwyr, cyfweleion, pobl sy'n gweithio yn yr ardal, a chynrychiolwyr y cyngor, sefydliadau cynllunio a datblygu, swyddogion datblygu cymunedol, swyddogion Into Work a chynrychiolwyr y gwasanaeth ieuencid at ei gilydd ar gyfer noson agored a gynhaliwyd yn Hyb Llaneirwg. Bu actorion proffesiynol dosbarth gweithiol, un o Laneirwg, yn perfformio monologau, deialogau a barddoniaeth, ac yn ysgogi trafodaethau rhwng y gynulleidfa wrth fyrddau.

Fe wnaethon ni rannu bwyd a sgwrs mewn man agored. Cafodd y digwyddiad ei hwyluso gan Fwrdd Seinio Common Wealth, sy'n cynnwys pobl leol a oedd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant hwyluso gyda Charlotte Lewis, cydweithredwr sy'n gweithio gyda nhw ers tro byd.

Roedd cyfres o berfformiadau wedi'u dilyn gan drafodaethau, yn archwilio'r hyn yr oedd trigolion ac ymwelwyr yn ei wybod am Laneirwg, sut y byddent yn disgrifio Llaneirwg, a sut y byddent yn adeiladu tref a chymdogaeth.



GOLYGFA 1- "ATGOFION NEU FREUDDWYDION" '

ACTOR 1 - Thaer yn gosod ei hun o flaen y meicroffon ac yn dechrau darllen o ddarn o bapur yn llais Richard Burton

Thaer:

I ddechrau o'r dechrau

mae'n ddiwrnod llwyd glawog o Haf yn y dref fach hon.

Allwch chi glywed y gwllith yn cwmpo, a allwch chi weld y

gafael yn y ddalen o bapur yn edrych arno

Thaer: Dylan Thomas, f**off

Taflu'r papur

Thaer: Croeso Witam Marharba, croeso i Costa Del Mellons innit.

Ydych chi wedi cloi eich car?

Yn aros

Thaer: Haha, ges i ti rŵan do? Jôc ... Ond dyna maen nhw'n gwneud i ti feddwl, ynde?

Wel os wyt ti'n darllen Wales Online, The Sun a'r Daily Mail. Mamau sengl, tadau absennol, twyllwyr budd-daliau, lladron, cardotwyr, gwerthwyr cyffuriau, lladron beiciau

Kate: Na, y lle mwyaf cyfeillgar ar wyneb y ddaear. Fe wnai ddweud wrthyt ti pam. Ti'n gweld, rydyn ni gyd yn gyfartal. Os nad oes gan rywun rywbeth ti'n helpu nhw.

Felly dyma ni - St Mellons, Llaneirwg - mae'n golygu lloc neu gae Eurwg. Oeddech ti'n gwybod, yn ôl y sôn, bod yna hen fynach, sef Eurwg, wedi byw ar y bryn ac wedi sefydlu'r eglwys flynyddoedd lawer yn ôl. Roedd o eisiau lle i gael heddwch, i fyfyrion ac i'r gymuned. Glywais i fod o'n licio ambell i fyshrŵm hefyd

Adran ddyfeisiedig - Y perfformwyr eraill yn gofyn cwestiynau i Thaer.

Chifaa: Thaer, beth all di ddweud wrthym am Llaneirwg?

Kate: Beth arall wyt ti'n ei wybod?



GOLYGFA 2 'EIN PENTREF'

Mae Chifaa & Thaer yn wynebu ei gilydd- maen nhw'n chwarae gêm gair fach

Chifaa: Croesawgar

Thaer: Strydoedd

Chifaa: Cryf

Thaer: Lleisiau

Chifaa: Gwydn

Thaer: Underdogs

Chifaa: Brwydro

Thaer: Gwyliau

Chifaa: blinedig

Thaer: parciau

Chifaa: Unig

Thaer: Trolïau siopa

Chifaa: Gwyrdd

Thaer: Mannau

Chifaa: Anweledig

Thaer: Cyngor

Chifaa: Wedi gwahanu

Thaer: eneidiau

Chifaa: Esgeulustod

Thaer: Amwynderau

Chifaa: cymunol

Thaer: gobaith



GOLYGFA 4 - 'Mantell anweledig'

Chifaa:

Dwi'n mynd drwy'r strydoedd ar ysgafn droed, dwi'n trio peidio gwneud sŵn

Dwi eisiau bod yn anweledig, llithro drwy'r nos fel niwl.

Dwi'n ymwybodol o bob siw a miw - mae pob deilen sy'n clecian yn gam sy'n dod yn nes, pob cangen yn llaw sy'n ymestyn amdana i.

Dwi'n clywed. Dwi'n teimlo. Dwi'n arogli. Dwi'n cadw golwg am gymylau o fwg fêp. Mae pob sigarét wedi'i daflu yn dân poeth, a phob

chwa o alcohol yn fwli meddw.

'Dos yn ôl o le dest ti!' Gwaeddodd.

Be, Llundain, atebais.

Mae e'n poeri arna i. Roedd yna bobl o gwmpas. Dywedodd neb yr un gair. Neb. Fel llwynog sy'n cael ei erlid gan haid o gŵn hela, dwi'n osgoi ysgyrnygu'r dorf swnllyd - aros yn y cysgodion Mae'n rhaid i mi ddal bws ar amseroedd penodol, cynllunio fy symudiadau fel gweithrediad y fyddin. Gwirio'r amserlen, cadw golwg am gysgodion Y gaeaf yw'r gwaethaf - mae tywyllwch yn lapio amdana i fel mantell a dwi'n teimlo na allai ddianc - dim ond yn fy ystafell dwi'n teimlo unrhyw heddwch neu allan yn natur, dwi'n trio mynd am dro yng ngolau dydd bob diwrnod - nid yw'r coed yn fy marnu, nid yw'r glaswellt yn fy marnu. Nid yw adar yn gweiddi geiriau cas. Hyd yn oed pan fydd y mosg wedi'i adeiladu dwi ddim am fynd. Fyddai i ddim yn teimlo'n saff - dwi fwyaf bregus pan fyddaf yn gweddïo. Fe wnai gario 'mlaen i ddal y bws i'r dref - fe wnai gymryd y risg - gan nad ydyn nhw'n troi fyny bob tro Dwi'n gweddïo am fantell anweledig er mwyn i mi allu diflannu, diflannu a bod, bod yn fi fy hun - bydd neb yn gallu cyffwrdd â mi - neb yn gallu fy mrifo.

GOLYGFA 5

Goleuadau'n diffodd, a'r goleuadau y tu mewn i'r tŷ ymlaen o hyd. Mae person ifanc yn gorwedd ar y glaswellt yn edrych i fyny ar y sêr - mae awyr y nos yn goleuo'r nenfwd uwchben -

KATE:

Dyma'r lle gorau i edrych ar
y sêr - fy nghuddfan fach i
i ffwrdd o'r holl sŵn a'r
twpdra - a wyddoch chi, fod pobl
wedi gweld seren sy'n 100
miliwn o flynyddoedd golau i ffwrdd - yng
Ngalaeth M100

Saib

Kate: (PARHAD)

Ond eto allwn ni ddim gweld bod angen
cae pêl-droed ag iddo ystafelloedd newid
lle dw i'n byw? Gwallgof on'd yw e? Wel
gallan nhw godi mwy a mwy o dai
fodd bynnag. O ie, mwy o arian, llai
o gyfleusterau a llai o dawelwch i wyllo'r
sêr - gwasgwch ni gyd mewn i le
llai fyth, eistedd yn ôl a
gadael inni ymladd dros ein darn
bach o ryddid felly ie? Tra bod
arian yn llyffwrdd i'w cyfrifon banc
On'd yw'r farchnad rydd mor rhydd?

Wrth gwrs mae'n rhaid i bobl gael
rhywle i fyw ond pwy sy'n penderfynu ble
a sut? Ond beth yw'r gost?

Thaer:

Pan o'n i'n iau roedd pethau'n wahanol. Ro'n
i'n arfer mynd i'r ganolfan gymunedol i chwarae
pêl-droed,
tennis bwrdd, mynd ar dripiâu - roedd
y gweithwyr ieuenctid yn wych - Margaret,
Jill, Timmy, Cyril Payne, heddwch i'w lwch.
Rhoddon nhw gyfle inni freuddwydio dipyn

Chifaa:

Dyna lle y syrthiais mewn cariad â
y sêr i fyny yno ddim yn gofyn
unrhyw beth ohonom ar wahân i ni.
Gadael. It. Af*****glone. Y
Nid yw Cosmos ar werth! OK Elon
Dwi'n gwybod?

Thaer:

Dyw'r ysgol ddim yn gallu dy ddysgu di beth i
edrych amdano i fyny yno.

Mae'n dechrau gydag ychydig o ysbrydoliaeth,
ychydig o amser - y cyfan mae'n cymryd yw gair
yma, ac eiliad yno - Craig

Bellamy, Joey Cordina, Berta Williams,

Aleighcia Scott, Neville Howard,

Tanni Grey Thompson, Jess Fishlock,

Colin Jackson- maen nhw'n disgleirio fel

yr heuliau sy'n llosgi yn yr awyr i fyny yno a

rhywle ar hyd y ffordd mae rhywun wedi gwrando

arnyn nhw, ac wedi gweld eu hangerdd ac wedi eu

cefnogi nhw - ac nid yw hynny'n digwydd ar ap.

Y brics a'r morter, y gofod a'r amser, yw ble

mae dynoliaeth yn cael ei chynnig a'i derbyn.

So fe'n wyddoniaeth roced nag yw?

Llyfrgelloedd, clybiau ieuenctid, timau pêl-dro-

ed, stiwdios dawnsio, canolfannau cymunedol a

phan fyddwch yn cyrraedd y brig anfonwch lifft yn

ôl i lawr ar gyfer y rhai nesaf

Gwenu, cofio, a nodio pen

Kate: (PARHAD)

Fel dywedodd Maria Mitchell y seryddwr benywaidd
cyntaf - 'does dim cosmetig ar gyfer harddwch
fel hapusrwydd' ac mae hapusrwydd yn dechrau
drwy fod yn chi'ch hun a mentro breuddwydio

Gallwn ddysgu llawer oddi yno
Rydych chi'n gwybod bod popeth mewn cydbwysedd
Rydych chi'n gweld eu bod nhw'n ymddiried yn ei
gilydd
galaethau planedau sêr - os
Mae rhywbeth allan o chwaeth
Mae'n effeithio ar bopeth arall yn unig
dweud bod yr Haul wedi ffrwydro'n sydyn
Yna byddwn yn mynd o fewn misoedd
neu'r lleuad wedi cracio agor y cefnforoedd
Gallai chwyddo a boddi ni i gyd - rydym
Mae pob un yn rhyng-gysylltiedig. Gweld a oedd
cae pêl-droed gydag ystafelloedd newid a thimau
oedd yn hyfforddi ac yn chwarae ac wedi
eu cit arbennig eu hunain a bathodyn
neu ganolfan gymunedol a oedd yn cynnal
cyngor gyrfa wedyn efallai dim ond
Efallai na fydd cymaint
fandaliaeth a dinistr

Credu

Galaethau yw'r tai geni
cymaint o ffactorau sy'n creu
bywyd dynol, planedau, bwyd a
Meddygaeth - bodolaeth fregus
gorlwytho un peth a'i ffynnu
Mae pob un yn ffrwydro - a phan fyddant yn dweud
Byddwch yn ofni'ch breuddwydion
i ofni'r dieithr..... f**k em

Saib

Dywedwch wrthynt - "Rwyf wrth fy modd â'r sêr
yn rhy annwyl i fod yn ofnus o'r
nos."

chwerthin

Galileo

chwyth o Queen Bohemian Rhapsody

Myfyrdodau Common Wealth

Mae ein cymuned yn galw am i'w lleisiau gael eu clywed a'u mewnbwn gael ei werthfawrogi'n wirioneddol. Maen nhw eisiau i'w profiadau byw fod yn fwy na dim ond adborth sy'n cael ei anwybyddu a'i ffeilio i ffwrdd — maen nhw am iddo yrru newid go iawn. Mae'n rhaid dilyn ymgynghoriad, a dylid cyfathrebu'n glir ynghylch sut mae eu hadborth wedi dylanwadu ar benderfyniadau neu beidio.

Gall cymryd rhan mewn deialog uniongyrchol â'r rhai sy'n byw yn yr ardal arwain at well dealltwriaeth o'r angen am gymunedau lleol yng nghyd-destun y cynllun ledled y ddinas. Gall defnyddio offer creadigol arwain at sgysiau mwy deinamig ac agored.

Ffyrdd amgen o ymgynghori sicrhau bod mwy o leisiau'n cael eu clywed: mae llenwi ffurflenni yn dibynnu ar sgiliau darllen ac ysgrifennu Saesneg ac nid yw'n gadael lle i gael eglurhad.


Y potensial ar gyfer yr hyn y gallai'r Cynllun Datblygu Lleol ei wneud i gefnogi cynlluniau lleoedd yn yr ardal leol fyddai'r cam nesaf yn y sgwrs â'n cymuned - roedd pobl yn awyddus iawn ac yn gyffrous iawn am gael cefnogaeth i ddychmygu posibiladau a gweithredu; Cam cyntaf efallai fydd ailsefydlu Gwyl Llaneirwg i ddod â'r gymuned ynghyd i ddathlu a rhannu.

Roedd y themâu a nodwyd yn cynnwys:

Seilwaith (gwasanaethau, swyddi, meddygfeydd, opsiynau siopa, parciau, cyfleusterau gofal iechyd, ysgolion) nad ydynt wedi dal i fyny â datblygiad torfol tai; Dywedodd pobl fod yr ardal yn tyfu'n gyflym ond dyw'r gwasanaethau ddim.

Diffyg cyfleoedd gwaith lleol, datblygu sgiliau, prentisiaethau a hyfforddiant ar gyfer datblygu gyrfa.

Diffyg manau niwtral ar gyfer gweithgaredd a dathlu cymunedol, gwyliau, cynulladau a manau cymdeithasol: diffyg cydgyfeiriant cymunedol, a theimlad o ddatgysylltu – nid mater o drafnidiaeth yn unig ond o gael eich clywed.



video by
Efa B-M
Paolo Russo

Thanks to Grange Pavilion
Youth Forum Members
helping create the video



Pafiliwn Grange a Fforwm leuencid Pafiliwn Grange




Bu Pafiliwn Grange a Fforwm leuencid Pafiliwn Grange yn cydweithio â gwneuthurwyr ffilm ac animeiddwyr lleol i greu ffilm fer animeiddiedig sy'n esbonio'r cynllun datblygu lleol yn eu geiriau eu hunain.

Lansiwyd y ffilm mewn gweithdy a gynhaliwyd ym Mhafiliwn Grange, gan ddod ag arweinwyr o'r gwahanol grwpiau sy'n defnyddio Pafiliwn Grange a'r bobl ifanc o'r Fforwm leuencid at ei gilydd. Ein nod ar gyfer y gweithdai oedd arfogi'r grwpiau hyn â'r wybodaeth i ymgysylltu â'u cymunedau priodol a chodi ymwybyddiaeth am y Cynllun Datblygu Lleol.

Agorodd y gweithdy gyda lansiad y ffilm, ac yna pryd o fwyd gan fwyty lleol a thrafodaethau bwrdd ar bosteri â themâu yn gwahodd pobl i rannu eu sylwadau a'u cwestiynau ar themâu a godwyd yn y ffilm:

Economi
Cyfleusterau
Mannau Gwyrdd
Tai
Gwneud Lleoedd



Dolen i'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Animeiddio
<https://www.youtube.com/watch?v=peHiFIJdc4U>
Cardiff University Community Gateway YouTube

**Sefydliad Corfforedig Elusenol Pafliwn Grange (CIO) a Fforwm
Ieuencid Pafliwn y Grange
Sgript ar gyfer Doodle ar Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLl)**

Golygfa Agoriadol:

[Gweledol: Mae cymeriad cartŵn cyfeillgar (Adam) yn ymddangos ar y sgrin, yn sefyll o flaen tref fach.]

[Adroddwr: Llais hwyliog a chyfeillgar]

Adroddwr: “Shwmae, Dyma Adam! Mae Adam yn byw yn y dref brydferth hon ac wrth ei fodd yn bod yn rhan o’i gymuned.”

Golygfa 2:

[Gweledol: Mae Adda’n edrych yn ddryslyd, gyda marciau cwestiwn o amgylch ei ben.]

Adroddwr: “Ond yn ddiweddar, clywodd Adam am rywbeth o’r enw y Cynllun Datblygu Lleol, neu CDLl yn fyr, a doedd e ddim yn siŵr beth oedd o.”

Golygfa 3:

[Gweledol: Adam yn dal chwyddwydr, yn edrych ar ddogfen fawr wedi’i labelu ‘CDLl’.]

Adroddwr: “Gadewch i ni helpu Adam i ddeall beth yw CDLl a pham ei fod yn bwysig i’w dref!”

Golygfa 4:

[Gweledol: Mae’r ddogfen yn agor i ddangos gwahanol adrannau fel tai, cludiant, mannau gwyrdd a chyfleusterau cymunedol.]

Adroddwr: “Mae CDLl fel map ffordd ar gyfer dyfodol tref neu ddinas. Mae’n dangos sut y bydd yr ardal yn tyfu ac yn datblygu dros y 10-20 mlynedd nesaf. Mae’n cynnwys pethau fel tai, cludiant, mannau gwyrdd, a chyfleusterau cymunedol.”

Golygfa 5:

[Gweledol: Mae llinell amser yn ymddangos, sy'n dangos blynyddoedd yn mynd heibio o 'Nawr' i'r 'Dyfodol'. Mae amryw eiconau yn ymddangos ar hyd y llinell amser sy'n cynrychioli tai, parciau a ffyrdd newydd.]

Adroddwr: "Mae'n helpu i gynllunio lle bydd cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu, sut y byddwn yn symud o gwmpas, lle bydd parciau newydd, a pha wasanaethau cymunedol y bydd arnom eu hangen."

Golygfa 6:

[Gweledol: Adam yn gwenu ac yn edrych ar dref fywiog, wedi'i chynllunio'n dda gyda thrigolion hapus.]

Adroddwr: "Y nod yw creu man lle gall pawb fyw'n hapus, gyda chartrefi da, cludiant hawdd, a llawer o fannau gwyrdd."

Golygfa 7:

[Gweledol: Mae Adam yn meddwl, gyda bwlb golau uwch ei ben.]

Adroddwr: Ond sut mae'r cyfan yn gweithio? Gadewch i ni ei dorri i lawr!"

Golygfa 8:

[Gweledol: Mae rhestr wirio yn ymddangos gyda thri phrif bwynt: 1. Ymchwil ac Ymgynghori, 2. Cynllun drafft, 3. Ymgynghoriad Cyhoeddus ac Adborth

Adroddwr: "Yn gyntaf, mae llawer o ymchwil ac ymgynghori gyda'r gymuned i ddeall eu hanghenion. Nesaf, mae cynllun drafft yn cael ei greu, ac yna mae pawb yn y gymuned yn cael cyfle i'w adolygu a rhoi eu hadborth."

Golygfa 9:

[Gweledol: Adam yn mynd i gyfarfod cymunedol, siarad â thrigolion eraill ac aelodau'r cyngor.]

Adroddwr: Dyna fydd eich rôl chi! Mae cyfraniad cymunedol yn hanfodol. Gallwch fynyachu cyfarfodydd, cwblhau arolygon, a rhanu eich syniadau a'ch pryderon."

Golygfa 10:

[Gweledol: Adam a thrigolion eraill yn trafod ac yn edrych ar y CDLl gyda'i gilydd.]

Adroddwr: “Mae eich adborth yn helpu i lunio'r cynllun terfynol, gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion a dymuniadau'r gymuned.”

Golygfa 11:

[Gweledol: Y ddogfen CDLl derfynol, wedi'i stampio â 'Cymeradwywyd', ac yn dangos cymuned fywiog, ffyniannus.]

Adroddwr: “Unwaith y bydd yr holl adborth yn cael ei ystyried, mae'r cynllun terfynol yn cael ei gymeradwyo a'i roi ar waith. Bydd y cynllun hwn yn llywio datblygiad y dref ac yn sicrhau ei bod yn tyfu mewn ffordd gynaliadwy a buddiol.”

Golygfa 12:

[Gweledol: Adam yn sefyll yn falch o flaen ei dref, gyda gwên fawr ac yn codi bawd.]

Adroddwr: Felly, nawr rydych yn gwybod! Mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn ymwneud â chynllunio ar gyfer dyfodol gwell i bawb. Cofiwch, mae eich llais yn bwysig. Cymerwch ran a helpwch i lunio dyfodol eich cymuned!”

Golygfa cloi:

[Gweledol: Testun ar y sgrin gyda galwad i weithredu: ‘Dysgwch fwy am eich CDLl lleol a chymryd rhan heddiw!’ a dolen gwefan y cyngor lleol.]

Adroddwr: “Dysgwch fwy am eich CDLl lleol a chymryd rhan heddiw! Ewch i www.cardiffdp.co.uk am fwy o wybodaeth.”

Diwedd y sgrïpt

Mae'r sgrïpt hon yn defnyddio iaith syml a delweddau deniadol i egluro agweddau allweddol Cynlluniau Datblygu Lleol, gydag Adam yn gymeriad canolog. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd cynnwys y gymuned a'i nod yw gwneud y wybodaeth yn hygyrch i bawb.

A CARING GRANGETOWN

What are your thoughts on schools, community spaces, health facilities, amenities, the role of the town? How do you feel you are supported in Grangetown?

THE ECONOMY OF GRANGETOWN

What are your thoughts on jobs, skills, professions, opportunities in Grangetown?

A GREENER GRANGETOWN

What are your thoughts on the green infrastructure and natural assets in Grangetown? How do you feel about their use, access, location and size?

AFFORDABLE HOUSING IN GRANGETOWN

What are your thoughts on new affordable housing in Grangetown? What is affordable to you?

Beth ddywedodd pobl wrth y Pafiliwn Grange

“Mae angen tai arnon ni, ond beth am y gwasanaethau i’w gefnogi?”

Amlygodd y cyfranogwyr nifer o faterion dybryd ynghylch defnydd a datblygiad tir. Roedd y pryderon allweddol yn cynnwys:

Tai fforddiadwy

Mae galw mawr am dai fforddiadwy a chymdeithasol i fynd i’r afael â’r argyfwng tai a chadw’r gymuned yn gyfan.

Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch ble i osod datblygiadau newydd heb golli mannau gwyrdd gwerthfawr.

Pryderon Amgylcheddol

Roedd llawer o’r cyfranogwyr eisiau sicrhau bod datblygiadau yn parchu’r amgylchedd, gan gynnwys iechyd y pridd, amddiffyn mannau gwyrdd presennol, a gadael lle i adfer natur mewn rhai ardaloedd.

Seilwaith ar gyfer Datblygiadau Newydd

Mynegodd cyfranogwyr y dylai seilwaith digonol gyd-fynd â datblygiadau, gan gynnwys ysgolion, cyfleusterau gofal iechyd, a systemau trafndiaeth, er mwyn atal gorlenwi a thagfeydd.

Rheoli’r Gymuned a Chynaliadwyedd

Roedd yr awgrymiadau yn cynnwys sefydlu Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol i sicrhau bod tir a thai yn parhau i fod yn fforddiadwy ac yn hygyrch i bobl leol, gan ganolbwyntio ar greu tai cynaliadwy, sy’n addas ar gyfer defnydd cymysg ac yn pontio’r cenedlaethau.

Goruchwyllo tai cymdeithasol yn well

Awgrymodd y cyfranogwyr y dylid llywodraethu darparwyr tai cymdeithasol yn well, yn ogystal â sicrhau bod mwy o ddealltwriaeth ynghylch effaith y broses dyrannu rhestrau tai cyffredinol a'i heffaith anghymesur ar gymunedau ymylol.

“Mae gan Grangetown ymdeimlad unigryw o gymuned nad ydym am ei cholli.”

Cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r canlynol am Grangetown:

Ymdeimlad o Gydllynant Cymunedol a Chymdeithasol

Mae Grangetown yn cael ei hystyried yn gymuned glos gydag ymdeimlad cryf o hunaniaeth leol, y mae trigolion am ei chadw yng nghanol datblygiadau newydd.

Mannau Gwyrdd

Mae manau gwyrdd cymunedol fel Gerddi Grange, Parc Marl a glannau afonydd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Pwysleisiodd trigolion yr angen i gynnal a gwella mynediad i'r manau hyn, yn enwedig ar gyfer cenedlaethau iau a theluoedd.

Fforddiadwyedd a Hygyrchedd

Pwysleisiodd pobl leol fod tai fforddiadwy ac amwynderau yn caniatáu i breswylwyr hirdymor aros yn yr ardal ac yn atal boneddigeiddio sy'n dadleoli teuluoedd.

Diogelwch a Glanweithdra

Roedd pryderon yn cynnwys amddiffyn parciau rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwella diogelwch mewn manau cyhoeddus, a chynnal a chadw gwell ar gyfer manau gwyrdd ac amwynderau presennol.

“Alla i ddim credu’r costau tai—sut all teuluoedd aros yma?”

Roedd y prif feysydd ar gyfer newid a ddymunir yn cynnwys y canlynol:

Ailddatblygu Safleoedd sydd Heb eu Defnyddio Ddigon neu sy’n Broblemus

Nododd y cyfranogwyr bod safleoedd fel y gwaith nwy halogedig yn gyfleoedd i ailddatblygu diogel a chynaliadwy ar gyfer tai neu ddefnydd cymunedol.

Gwella Hygyrchedd Mannau Gwyrdd

Mae awydd am fwy o fannau gwyrdd sydd yn hawdd cael mynediad iddynt ac sydd wedi’u cynllunio i fod yn ddiogel, yn enwedig mewn cymdogaethau gyda gwyrddni cyfyngedig.

Lleihau Dibyniaeth ar Geir a Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus

Mae cyfranogwyr eisiau gweld gostyngiad mewn traffig ceir, gwell mynediad i gerddwyr, mwy o lwybrau beicio, a thrafnidiaeth gyhoeddus addas i’r diben sy’n fforddiadwy.

Cefnogi Busnesau Bach

Mae diogelu manau manwerthu rhag cael eu troi’n dai, lleihau cyfraddau busnes, a chefnogi busnesau lleol yn cael eu hystyried yn ffordd o ddiogelu’r economi leol a chymeriad cymunedol.

“Dychmygwch ddefnyddio ardaloedd sydd heb eu defnyddio’n ddigonol ar gyfer tai sy’n canolbwyntio ar y gymuned.”

Mae’r safleoedd penodol a grybwyllwyd yn cynnwys:

Safle Gwaith Nwy

Awgrymodd rhai y gellir ailddatblygu’r safle halogedig hwn gyda thai cymdeithasol cynaliadwy, er y byddai angen sylw gofalus i fynd i’r afael â risgiau iechyd oherwydd yr halogiad (ee, arsenig, cyanid).

Lleoedd Heb eu Defnyddio ac Ystafelloedd Arddangos Ceir

Gellid ail-bwrpasu rhai manau sydd heb eu defnyddio ddigon fel ystafelloedd arddangos ceir a manau manwerthu, neu ar gyfer anghenion cymunedol fel tai, parciau a hybiau cymunedol.

Ardal Afon Taf

Ymhlith yr awgrymiadau roedd gwneud gwell defnydd o lannau afonydd ar gyfer mannau cymunedol a llwybrau cerdded, cadw harddwch naturiol, a gwella ymgysylltiad cymunedol â'r afon.

Garejls Heb eu Defnyddio

a Cherbytai: Awgrymwyd ail-bwrpasu'r mannau hyn fel mannau gwaith neu hybiau cymunedol ar gyfer busnesau bach, siopau atgyweirio, neu weithgareddau cymunedol i gefnogi entrepreneuriaeth leol.

“Mae angen data go iawn arnom i ddangos sut mae hyn yn effeithio ar ein cymuned!”

Gallai'r dystiolaeth a gasglwyd gynnwys:

Arolygon ac Adborth

Cymunedol: Gall barn a dewisiadau wedi'u dogfennu gan bobl leol ynghylch anghenion tai, defnydd mannau gwyrdd a gofynion seilwaith gefnogi argymhellion polisi.

Mapio Perchnogaeth Tir a

Safleoedd Posibl: Datblygu mapiau ffynhonnell agored sy'n dangos pwy sy'n berchen ar ba ardaloedd a nodi safleoedd hyfyw i'w datblygu er mwyn helpu i lywio cynllunio cynaliadwy.

Astudiaethau Achos a

Chymariaethau: Mae enghreifftiau fel model tai sy'n pontio'r cenedlaethau New Broadway a phrosiectau datblygu dan arweiniad y gymuned yn darparu cynseiliau llwyddiannus.

Manteision Iechyd ac

Amgylcheddol: Gallai astudiaethau ar effeithiau iechyd safleoedd halogedig, dosbarthiad mannau gwyrdd, a mynediad at ofal iechyd gefnogi'r broses o gynllunio seilwaith a chynllunio amgylcheddol. Astudiaethau ar yr effaith ar blant sy'n byw mewn tai gorlawn fel cwsg, addysg, lles meddyliol. Cysylltu ymchwil parhaus Prifysgol Caerdydd fel cynllunio bro sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

“Rydyn ni eisiau cynllun datblygu sy’n grymuso lleisiau lleol.”
Roedd yr awgrymiadau’n cynnwys:

Blaenoriaethu Tai Fforddiadwy a Chymdeithasol

Ffocws ar dai gwirioneddol fforddiadwy, gyda diffiniad clir a chynhwysol o “fforddiadwyedd,” i fynd i’r afael â’r argyfwng tai a chynnal amrywiaeth gymdeithasol.

Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a Pherchnogaeth


Leol: Sefydlu strwythurau ar gyfer datblygiadau tir a thai a reolir gan y gymuned, a all sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu diwallu gan brosiectau sy’n cael eu gyrru gan ddatblygwyr.

Integreiddio Seilwaith gyda Datblygiadau Newydd:

Mynnodd y cyfranogwyr bod polisiâu o ran gofal iechyd, cyfleusterau addysgol a seilwaith trafniadaeth yn cyd-fynd a maint unrhyw datblygiadau tai.

Cyfathrebu a Chydweithio Gwell

Gofynnodd llawer am brosesau cynllunio mwy tryloyw a chynhwysol gydag awdurdodau lleol, gan ddefnyddio arbenigedd lleol a sicrhau bod aelodau’r gymuned yn cael eu hysbysu ac yn cymryd rhan mewn penderfyniadau.



Myfyrdodau Pafiliwn Grange a Fforwm Ieuencid Pafiliwn Grange

***“Mae angen i ni droi'r adborth hwn yn fap ffordd ar gyfer
gweithredu.”***

Mae gwybodaeth a blaenoriaethau allweddol yn cynnwys

Canolbwyntio ar Fforddiadwyedd a Hygyrchedd Tai: Mae'r angen am dai sy'n bodloni safonau fforddiadwyedd y gymuned tra'n cadw cymeriad cymdeithasol yr ardal yn hollbwysig.

Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Chymdeithasol: Ni ddylai datblygiad beryglu manau gwyrdd nac iechyd y cyhoedd, ac yn ddelfrydol dylai integreiddio arferion cynaliadwy sy'n meithrin yr amgylchedd a'r gymuned leol.

Grymuso a Chynrychiolaeth Leol: Mae'r gymuned eisiau mwy o ran mewn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, yn enwedig o ran defnydd tir a mynediad at amwynderau.

Gellir cyflawni hyn drwy eiriol dros bolisiau sy'n cefnogi Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a chwmnïau cydweithredol. Canolbwyntio ar leisiau amrywiol trwy wrando ar gymunedau a sgwrsio gyda nhw, gam ddefnyddio dull gwrando'n gyntaf.

Dull Datblygu Cyfannol: Pwysleisio cydbwysedd rhwng datblygu a seilwaith, gan sicrhau bod unrhyw gynnydd yn y boblogaeth yn cael ei gyfateb â thwf cyfrannol mewn ysgolion, gofal iechyd a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Cefnogaeth i'r Economi Leol: Mae diogelu manau manwerthu, cefnogi busnesau bach a meithrin cyfleoedd cyflogaeth lleol yn hanfodol ar gyfer cynnal iechyd a chymeriad economaidd Grangtown.

Myfyrdodau diwrnod ysgrifennu

Aeth aelodau'r prosiect i 'ddiwrnod ysgrifennu' i fyfrio ar ymgysylltu â'r Cynllun Datblygu Lleol a gyda'r prosiect. Mae'r myfyrdodau yn canolbwyntio ar werth ymgysylltu â sefydliadau cymunedol i greu Cynllun Datblygu Lleol, yn ogystal â'r heriau o weithio gyda'r system gynllunio.

Thema allweddol o fyfyrdodau'r cyfranogwyr yw'r brwdfrydedd sy'n bodoli o fewn cymunedau lleol i gymryd rhan ac i sicrhau newid. Mae aelodau o'r gymuned leol eisoes yn buddsoddi cryn egni mewn prosiectau lleol ac mae potensial i ddatblygu'r rhain yn rwydweithiau, i rannu sgiliau ac adeiladu gallu.

Roedd digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned yn gyfleoedd i ddysgu am ddi-ddordebau a blaenoriaethau'r rhai sy'n byw yn yr ardal, gan nodi ble mae yna uchelgeisiau cyffredin a lle mae gwahaniaethau o fewn cymunedau. Amlygodd y cyfranogwyr werth cyfarfod ag aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor, a dysgu am eu gweithgareddau a'r cyfyngiadau sydd ar eu gwaith.

Roedd y myfyrdodau yn nodi'r cyfle i'r Cyngor wneud pethau 'gyda'r' gymuned a gweld y gymuned fel adnodd medrus a gwybodus. Mae hyn yn gofyn am newid diwylliant yn y tymor hir i adeiladu cynghreiriau ac annog cynghorau i fod yn fwy agored ac empathig i bryderon cymunedol.

Roedd sefydliadau cymunedol yn cefnogi dirprwyo gweithgareddau ymgysylltu i gymunedau, gyda chynghorau yn contractio grwpiau lleol i ddarparu cyfarfodydd ymgysylltu â'r gymuned yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mynegodd sefydliadau cymunedol amheuaeth ynghylch cymryd rhan mewn gweithgarwch ymgysylltu a oedd yn ffurfio 'ymarfer blwch ticio' a thynnu sylw at y risgiau i grwpiau cymunedol wrth arwain gweithgareddau ymgysylltu.

Nododd sefydliadau cymunedol werth cydweithio ar draws y ddinas a'i chymunedau. Roedd pob sefydliad cymunedol yn gweithio gyda thrigolion a grwpiau cymunedol yn eu hardal leol, ond roeddent hefyd yn gweld gwerth rhannu syniadau. Gallai awdurdodau cynllunio lleol chwarae rhan werthfawr wrth adeiladu rhwydweithiau ar draws sefydliadau cymunedol cyn, yn ystod, ac ar ôl paratoi Cynllun Datblygu Lleol.

Roedd sefydliadau cymunedol yn cydnabod pwysigrwydd y Cynllun Datblygu Lleol wrth lunio dyfodol eu cymunedau. Nododd y sefydliadau hefyd rwystrau a heriau sylweddol i weithio gyda'r system gynllunio. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys cymhlethdod y system gynllunio, natur broffesiynol gwaith cynllunio, a'r cyfyngiadau a osodir ar syniadau cymunedau gan hierarchaeth cynlluniau a pholisïau ar lefelau eraill.

Y rhwystrau ychwanegol a nodwyd oedd yr iaith gymhleth a ddefnyddiwyd wrth gynllunio a hyd dogfennau cynllunio. Roedd cynllunio hefyd yn teimlo fel gweithgaredd tymor hir nad oedd ganddo'r hyblygrwydd i fynd i'r afael ag anghenion uniongyrchol pobl sy'n byw mewn cymunedau lleol. Cyfeiriodd grwpiau cymunedol hefyd at yr her o gysylltu dyheadau cymunedol â chynnwys y Cynllun Datblygu Lleol.

Mynegodd y grwpiau cymunedol bryderon am y pwyslais a roddwyd gan y Cyngor ac eraill ar 'reoli disgwyliadau'. Dadleuodd y grwpiau cymunedol y dylai ymgysylltu â'r gymuned fod yn fater o godi disgwyliadau pobl, ac roeddent yn galw am ddulliau gweithredu mwy uchelgeisiol sy'n galluogi gydag ymagwedd 'gwneud iddo ddigwydd'.

Nododd grwpiau cymunedol yr her o 'wybod â phwy i siarad' yn y cyngor. Roedd y grwpiau eisïau cysylltiadau personol a chael gwybodaeth glir ynghylch at bwy i fynd i'r afael â materion gwahanol. Roedd y grwpiau cymunedol hefyd eisïau perthynas dda â swyddogion y cyngor i sicrhau bod ymgysylltu yn broses barhaus.

Sgyrsiau myfyriol

Roedd sgyrsiau am weithredu ar ôl ymgysylltu rhwng Mymuna a phob un o'r pedwar sefydliad yn myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd o'r prosiect ac argymhellion ar gyfer y camau nesaf:



Cydweithio, meithrin gallu a chreu rhwydweithiau

“Roedd hi'n deimlad pwerus i fod mewn gofod gyda phawb i rannu'r syniadau hynny a rhannu arferion gorau.”

“Roedd yn gyfarfod o weithredwyr, sy'n dda, oherwydd gallwch chi adeiladu ar hynny, a gallwch chi wneud rhywbeth gyda'ch gilydd. Ac mae nhw'n bobl gyda rhyw fath o weledigaeth ac ymrwymiad hirdymor i wneud rhywbeth cadarnhaol gyda'i gilydd.”

“Dysgais fod y materion yn debyg iawn i gymunedau sydd ar y cyrion. Nid yw'n seiliedig ar liw, crefydd nac unrhyw beth tebyg. Mewn gwirionedd, cymunedau sydd i bob pwrpas wedi cael eu gwthio o'r neilltu gan gymdeithas dros nifer o flynyddoedd. Dyna beth oedd yn ddiddorol iawn i'w wybod: mae llawer o debygrwydd rhwng profiadau'r gymuned yn Grangetown, Butetown, Sblot, profiadau tebyg iawn. Mae cyfle gwirioneddol i ni ddod at ein gilydd ac uno a gwneud rhai gwahaniaethau gwirioneddol yn y dyfodol, oherwydd nawr rydym yn gweld bod llawer o bethau cyffredin o ran yr heriau hynny rydym yn eu hwynebu. Ac roedd hynny'n ddiddorol iawn.”



“Roedd yn hen bryd cynnal sgwrs am gyfalaf cymdeithasol, cenhadaeth ddinesig a chyfoeth cymunedol, o ran gwybodaeth, sgiliau a gallu adnoddau. Mae deall hyn yn edrych y tu hwnt i'r cynllun datblygu lleol yn unig. Mae'r prosiect hwn yn ffrwyth uchelgais llawer, llawer mwy sydd wedi dod i'r amlwg.”

Effaith ymgysylltu

“I mi, dyna'r canlyniad mwyaf, ysgogi cymunedau i ddod at ei gilydd. Mae pobl yn barod i gymryd mwy o ran, i ddeall sut mae'r system yn gweithio a sut i gael gwell mewnbwn i'r system honno er mwyn sicrhau manteision pendant i ni - ein bod ni yn rhan o'r broses bellach. Ydyn, rydyn ni wedi bod yn dawel yn rhy hir ac mae hyn wedi arwain at gollledion difrifol i'n cymuned.”

“Rydw i wedi cael trafferth meddwl am sut ar wyneb y ddaear y gall cymunedau ar ein lefel ni wir ddylanwadu ar y CDLI, ac mae beth sydd angen ei gyflawni'n ymarferol er mwyn sicrhau bod hyn yn ddigwydd dal yn ddirgelwch, rwy'n credu.”



“Dyna beth mawr am y CDLI, nid brics a mortar yn unig sy’n bwysig. Mae’r hyn rydyn ni ei gweld nawr yw effaith blynyddoedd a blynyddoedd o drais ac anghyfiawnder. Felly, beth mae’r gymuned ei hangen iddi ddod drwy’r broses honno?”

“Roedd yna gormod o wybodaeth. O edrych yn ôl, byddai wedi bod yn braf cael o leiaf chwe mis da o hyfforddiant. Roedd yr holl wybodaeth yn fy llethu.”

Cymhlethdod prosesau cynllunio

“Ni yw’r cyfryngwr i’r gymuned. Ond yna roedd angen cyfryngwr rhyngom ni a’r arbenigwyr yn yr ystafell.”

“Fy nod oedd meddwl am a chreu rhywbeth roedd plentyn 9 neu 10 oed a pherson 90 oed yn gallu ei ddeall. Pe bai’n rhaid i mi dorri’r broses i lawr yn syml iawn, a allent ddeall hynny? Os roeddech chi’n egluro mewn ffordd sylfaenol iawn, roeddech chi’n darparu mwy o gyfle i roi mwy o wybodaeth. Dyna oedd fy meddwl o’r cychwyn.”

“Yn gyffredinol, rwy’n credu bod cynllunio yn gallu bod yn broses anodd iawn i gymunedau ei ddeall, oherwydd y ffordd y mae’n cael ei gyflwyno. Mae’n anodd iawn i lawer o bobl ddeall y broses oherwydd mai dim ond swp o bolisiau cyfreithiol cymhleth, dogfennau a PDFs i’w sgrolio drwyddynt ydyw. Ac oherwydd maint y dasg, mae’n anodd iddynt amgyffred y broses. Mewn gwirionedd, dyna lle dechreuais i ymddiddori ychydig yn fwy. A dweud y gwir, i mi, cynllunio yw popeth, boed hynny’n dai, yn swyddi, neu unrhyw beth arall -mae cynllunio yn gysylltiedig. Felly cynllunio yw popeth, ac mae gennym anghydraddoldebau mewn unrhyw faes o fewn cymdeithas. Mae gan gynllunio rôl.”



“Mae tuedd i feddwl oherwydd nad yw'r gymuned yn cymryd rhan yn y broses, nad ydynt yn meddu ar y gallu i wneud hynny. Mae yna wahaniaeth mewn dealltwriaeth. Ond weithiau, mewn gwirionedd, mae hynny oherwydd bod drwgdybiaeth ddofn o sefydliadau ar draws y bwrdd.”

Perthynas y Gymuned a'r Cyngor

“Mae yna eironi. Fe'i gelwir yn ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r gymuned wedi ymgysylltu, ond nid yw'r cyngor.”

“Gwir rannu gwybodaeth go iawn - rwy'n teimlo mai'r cymunedau oedd yn dangos haelioni'r sgysiaiu, ac roedd y cymunedau, mewn ffordd, yn barod i amlygu eu hunain, mewn golau da a drwg, tra bod swyddogion y ddinas yn eithaf gwarchoddedig yn eu sgysiaiu. Roeddwn i'n gallu gweld sgysiaiu yn blodeuo, ond yna'n cael eu cau i lawr. Ac rwy'n credu mai ofn yw hynny, ac mae bob amser yn ddyletswydd ar y gymuned i fod yn hael.”

“Mewn rhai ffyrdd, rwy'n credu bod lefel y datgysylltu yn fwy dwys nag yr oedd unrhyw un yn ei ddisgwyl mewn gwirionedd. Ond mae lefel y brwdfrydedd i ddod ymlaen ac atgyweirio'r difrod hwnnw, yn enwedig o'r cymunedau, yn fawr. Y brwdfrydedd a'r gwytnwch hwnnw sy'n cael eu hamlygu o fewn y cymunedau i ddysgu, i ymgymryd â'r her - byddwn i'n dweud mai dyna'r peth mwyaf rydw i wedi'i ddysgu, mae'n debyg.”

“Gallwn gynnal gwyl leol mewn ardaloedd ac ymgysylltu â phobl ifanc lleol a grwpiau gwahanol er mwyn darganfod, ‘beth sy’n bwysig i chi?’, ac yna cysylltu yn ôl [...] Mae popeth yn rhyng-gysylltiedig. Mae’n ymwneud â sut i gysylltu’r dotiau hynny a’r cysylltiadau coll o ran iaith a jargon a strategaethau ymgysylltu.”

Ymddiried yn y gymuned

“Cawson ein gwahodd! Dydyn ni byth yn cael gwahoddiad. Mae’r ardal hon yn cael ei hanwybyddu. Ac os nad yw’n cael ei hanwybyddu, mae’n cael ei dirmygu neu’n cael ei disgrifio fel un difreintiedig. Cyfeirir at yr ardal fel un difreintiedig ym mhob un erthygl ar-lein. Does byth sôn amdanon ni heb y cyd-destun hwn. Cyfeirir atom bob amser yng nghyd-destun ardal ddifreintiedig. Dydy hyn ddim yn wir o gwbl. Does neb byth yn gofyn i ni am ein barn. Cawsom wahoddiad, a dyna pam y gwnaethom gymryd rhan. Roedd cael gwahoddiad yn beth hyfryd.”

“Mae’r partneriaid wedi cael eu trin â math o urddas [...] dyrannwyd arian i dalu am amser staff ac i dalu am adnoddau, ac i’n galluogi i fod yn greadigol yn ein dulliau ymgysylltu. Roedd cyllideb wedi’i neilltuo ar gyfer y gweithgaredd ymgysylltu, a hynny er mwyn osgoi unrhyw faterion a chwestiynau fel “Allwch chi neud hyn a’r llall, allwch chi wneud y weithgaredd yn hwyliog -ond nid ydym am roi unrhyw arian i chi i’w gynnal, ac nid ydym yn parchu eich amser na’ch arbenigedd yn y maes hwn” [...] yr argymhelliad yw parhau â’r sgwrs a pharhau â’r un urddas a pharch at y sefydliadau cymunedol.”

“Prif amcan y prosiect hwn oedd gweld faint yn fwy pwerus yw ymgynghori â’r gymuned pan fyddwch chi’n ei roi yn nwylo sefydliad sydd wedi ymsefydlu yn y gymuned. Neu ai bwydo i mewn i’r CDLI oedd hyn?”

“Rwy’n credu, pan fyddwch chi’n dechrau ystyried “mae hyn hefyd yn bosibl,” a’ch bod chi’n ei drosglwyddo i’r gymuned, mae bob math o bosibiliadau yna’n deillio o hynny, rhai nad ydych chi’n eu rheoli ac sy’n gyffrous iawn.”

“Fe wnaethon ni dreulio wythnos yn cyfweid â phobl, ac roedd hynny’n foment eithaf mawr. Gallu eistedd un i un gyda phobl o gwmpas yr ardal a gofyn cwestiynau eithaf dwfn iddyn nhw [...] Mae hyn wedi ein galluogi i ddeall y gymuned mewn ffordd sy’n llawer gwell nag o’r blaen. Mae hon yn ardal mor fawr. Pwy sy’n cael ei gynrychioli, pwy sydd ddim, sut allwn ni gael lleisiau newydd i’i ymuno â ni? Ac mae hynny’n teimlo’n gadarnhaol iawn.”

“Byddwn i’n dweud bod yn rhaid i’r Cyngor ddysgu ymddiried yn y cymunedau.”

“Y syniad hwnnw o gydnabod mai sefydliadau cymunedol, fel y rhai rydyn ni i gyd yn gweithio ynddynt, yw’r llefydd gorau i wrando ar gymunedau a chyfathrebu â nhw. Mewn gwirionedd, mae eu hariannu i wneud hynny yn ein cynnal, yn rhoi’r adnoddau i ni wneud yr hyn rydyn ni’n ei wneud orau, ac mae’n cydnabod ein rôl.”

“Ein huchelgais yw gallu deall y CDLI i’n trigolion, bod yn gyfieithwyr i’n trigolion, gallu egluro beth mae’n ei olygu iddyn nhw, a chymryd fwy o ran yn y newidiadau sy’n digwydd yn ein hardal leol, yn hytrach nag eistedd yn ôl.”

“Rwy’n gwneud hyn am fy mod yn caru fy nghymuned ac er mwyn gwella’r dyfodol. Felly, mae fy ngweithredoedd yn dod o le gofal a chariad go iawn ac mewn gwirionedd, dyna’r gwahaniaeth.”



CARDIFF LOCAL DEVELOPMENT PLAN

A guide to the Cardiff Local Development Plan

WHAT IS THE LDP?

The Cardiff Local Development Plan (LDP) guides the development and management of land and buildings in your area. Residents and community members can provide comments and feedback to define the needs of your area and improve the LDP. This can have a direct impact on your community.

NOW UNTIL 2036

WHY IS IT IMPORTANT?

The LDP can shape future developments in the city to benefit your community, economy and environment. Key themes include:



Lack of Affordable Homes



Providing for Jobs in the City and the Wider Region



Meeting the Needs of an Ageing Population



Promoting Regeneration and Sustainable Communities



Distributing Growth Sustainably



Responding to the Climate and Nature Emergency



Reducing Reliance on the Car



Revitalise the City Centre and District and Local Shopping Centres

CURRENT STAGE

- A proposed version of the LDP is currently being prepared by the council with proposed policies and areas for development. This is expected to be released in 2025.
- There will be an 8 week public consultation led by Cardiff Council in 2025. This is your chance to get involved and comment on the proposed plan!

HOW TO GET INVOLVED

- During the 8 week consultation period, you can comment your thoughts, opinions, and any recommendations to change or add to the plan. You can submit additional evidence which will add to your comment.

**8 WEEK
CONSULTATION
LED BY CARDIFF
COUNCIL IN
2025**



ROLE OF LOCAL COUNCILLORS

- Local councillors can support your community and individuals within the planning and development of your local area.
- They will listen and consider your views, bringing these to the attention of Cardiff Council.
- Find out more about your local councillors at: [Cardiff.moderngov.co.uk/memberindex](https://www.cardiff.gov.uk/memberindex)

YOU MATTER!

WHAT HAPPENS NEXT?

- 1 The plan is submitted to Welsh Government and an inspector will examine the plan and your comments.
- 2 The inspector will write a report with any changes or recommendations to the plan.
- 3 Cardiff council will make any changes and the final plan will be published and put into action.



For more information, visit: <https://www.cardiffldp.co.uk/>



Poster a grëwyd gan y tîm ymchwil (Inanna Heslop) i'w ddsbarthu ar gamau ymgysylltu

Argymhellion ar gyfer y camau nesaf:

Parhau â'r sgwrs

Parhau â'r sgwrs a'r broses ymgysylltu gydag urddas a pharch tuag at sefydliadau cymunedol presennol. Ariannu ac ymddiried ynddynt i arwain y broses ymgysylltu yn eu cymunedau lleol. Cynnwys grwpiau cymunedol presennol yn llawer cynharach yn y broses a chaniatáu cyfnewid gwybodaeth ddwy ffordd o ran cynllunio ac ymgysylltu.

Gwneud ymgysylltu'n berthnasol ac yn real

Osgoi gorlwytho'r gymuned neu grwpiau gwirfoddol gyda beichiau neu lwyth gwaith ychwanegol, gan eu bod eisoes o dan bwysau gyda'u hamcanion eu hunain. Gwneud ymgysylltu'n berthnasol ac yn real trwy ei integreiddio i waith y sefydliadau eu hunain.

Adeiladu gallu drwy ymgysylltu

Gall ymgysylltu ddod â rhwydweithiau o bobl sydd â diddordebau ac amcanion cyffredin ynghyd, gan ddarparu mathau amrywiol o wybodaeth a phrofiad. Defnyddio ymgysylltu i ysgogi rhwydweithiau o bobl sy'n gallu gweithredu gyda'i gilydd. Nodi camau gweithredu tymor byr a thymor hir y gall cymunedau eu cymryd i gynyddu asiantaeth gymunedol a pherchenogaeth datblygiad yn eu hardaloedd lleol.

Gwneud prosesau'r Cynllun Datblygu Lleol yn symlach ac yn berthnasol

Mae'r CDLI yn gymhleth ac yn haniaethol a gall fod yn anodd deall sut y gall cymunedau effeithio'n ystyrllon ar y broses. Trosi'r broses drwy leisiau cymunedol, rhannu'r broses yn gamau gweithredu tymor byr y gall cymunedau ddylanwadu arnynt ar unwaith, a'i gwneud yn glir sut y gall cymunedau effeithio'n ystyrllon ar y tymor hir, gan gynnwys trwy gefnogi Cynlluniau Cynefin arweinir gan y gymuned.

Adnoddau a chysylltiadau

Privilege Cafe

<https://theprivilegecafe.com/>

Prifysgol Caerdydd: Porth Cymunedol

<https://www.cardiff.ac.uk/cy/community/our-local-community-projects/community-gateway>

ACE (Action in Caerau and Ely)

<https://www.aceplace.org/>

Common Wealth

<https://commonwealththeatre.co.uk/cardiff/>

Pafiliwn Grange a Fforwm Ieuenctid Pafiliwn Grange

<https://grangepavilion.wales/cy/home/>

Dolen i'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Animeiddio

<https://www.youtube.com/watch?v=peHiFIJdc4U>

Cardiff University Community Gateway YouTube



Splott Community Volunteers

<https://splottcommunityvolunteers.co.uk/>

Cyngor Caerdydd

Gynllun Datblygu Lleol Newydd Cyngor Caerdydd

<https://www.cdllcaerdydd.co.uk/>

Cymorth Cynllunio Cymru

<https://planningaidwales.org.uk/?lang=cy>

Cyfeiriodd tîm y Prosiect a'r Rhwydwaith Cyngori Cynllun Datblygu Lleol at bolisiau, ymchwil a fflonellau pellach o gefnogaeth / gwybodaeth sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys:

Polisiau cynllunio ac ymgynghori Cyngor Caerdydd

Ystafell Ymgynghori Rithwir Cyngor Caerdydd: <https://cardiffldp.consultation.ai/>

Cardiff LDP <https://www.cdllcaerdydd.co.uk/>

Caerdydd Un Blaned <https://www.caerdyddunblaned.co.uk/>

Cryfach Tecach Gwyrddach <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/cryfach-tecach-gwyrddach/Pages/default.aspx>

Strategaeth Cyfranogiad <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Strategaeth-Cyfranogiad/Pages/default.aspx>

Ymchwil / canllawiau ar gynllunio yng Nghymru

Archwilio Cymru, *Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru* <https://www.audit.wales/cy/cyhoeddiad/effeithiolrwydd-awdurdodau-cynllunio-lleol-yng-nghymru>

Cynllunio cefnogaeth benodol

Cymorth Cynllunio Cymru <https://planningaidwales.org.uk/?lang=cy>

Cymorth Cynllunio Cymru, *Cynllun Cynefin* <https://planningaidwales.org.uk/cynlluniau-lle/?lang=cy>

Cymorth Cynllunio Cymru, *Gwerth ymgysylltu mewn cynllunio yng nghymru* <https://planningaidwales.org.uk/gwerth-ymgysylltiad-mewn-cynllunio-yng-nghymru/?lang=cy>

Strategaeth iechyd cyhoeddus a phhecyn cymorth

Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodo <https://bipcaf.gig.cymru/amdanom-ni-l/ein-cenhadaeth-an-gweledigaeth/adnewyddu-ein-strategaeth/>

Health Impact Assessment and Local Development Plans: A Toolkit <https://phw.nhs.wales/publications/publications-1/health-impact-assessment-hia-and-local-development-plans-ldps-a-toolkit-for-practice/>

Ymchwil a chymorth presennol ar ymgysylltu â'r gymuned yn seiliedig ar le

Community Consultation for Quality of Life (CCQoL) <https://www.qolf.org/projects/community-consultation-for-quality-of-life-ccqol/>

CCQoL Wales National Report https://www.qolf.org/wp-content/uploads/CCQOL_Wales-National-Report-compressed.pdf

CCQoL Inclusive Engagement Toolkit <https://www.qolf.org/what-we-do/inclusive-engagement-toolkit/>

CCQoL Code of Practice <https://www.qolf.org/code-of-practice/>


Llesiau Cymunedol Caerdydd <https://communityvoicescardiff.commonplace.is/cy-GB>

Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymru <https://www.bct.wales/?locale=cy>

Ymchwil sy'n benodol i le sy'n bodoli eisoes yn ymwneud â Arc Deheuol Caerdydd

ACE, *Community Plan for Ely and Caerau* <https://www.aceplace.org/community-plan/>

Kahn, Harris, Smith, *A Grangetown To Grow Up In*, <https://www.cardiff.ac.uk/stories/building-a-child-friendly-recovery-plan-for-grangetown>



Planning Aid Wales
Cymorth Cynllunio Cymru